# Cam 3 – Adolygu'r CGHT (2008-2018) cyntaf

## Cyflwyniad:

Wrth adolygu'r **Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT)** cyntaf, dylid ystyried ffactorau penodol, gan nad oedd modd cwblhau nac adolygu pob tasg:

a) **Dim 'Templed' CGHT i'w ddefnyddio:** Hwn oedd y tro cyntaf i bob **Awdurdod Lleol (ALl)** gael y dasg o greu CGHT (dyletswydd a rhan o Ddeddf CROW 2000, adran 60); tra bod Canllawiau Statudol gan **Lywodraeth Cymru (LlC)** a **Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC, Cyfoeth Naturiol Cymru – CNC** – bellach) nid oedd 'templed' ar ei chyfer. Cyhoeddwyd 23 CGHT yng Nghymru ac yn dilyn hyn daeth Adolygiad CGHT Cymru (Mawrth 2009) i'r casgliad fod 'pob CGHT yn wahanol' ac y gallai 'dogfen dempled CGHT fod wedi bod yn ddefnyddiol i lunwyr CGHT'.

b) **Proses 2 flynedd:** Cafodd y CGHT cyntaf ei lunio'n gyntaf yn 2006 a chafodd CGHT drafft ei gyhoeddi yn 2007. Yna fe'i cwblhawyd, fe'i cymeradwywyd ac fe'i mabwysiadwyd; cyhoeddwyd y fersiwn derfynol ym Mehefin 2008.

c) **Nifer uchel o dasgau:** Roedd 16 o nodau a blaenoriaethau allweddol; oddi fewn iddynt roedd 63 o gamau gweithredu a dargedir gyda 213 o is-dasgau. Yn dilyn llythyr gan LlC yn dweud y cafodd pob CGHT ei ddefnyddio i wneud cais am arian ychwanegol, gyda phwyslais ar feintioli adnoddau, ehangwyd y CGHT (cyf t5 CGHT cyntaf) a arweiniodd at fwy o dasgau.

d) **Materion ariannu:** Dyfarnwyd arian grant CGHT i ALlau gan LlC (rheolir gan CCGC) yn seiliedig ar % cyfanswm hyd yr HTC a % y boblogaeth yng Nghymru; nid oedd ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd llawn ond fe'i darparwyd blwyddyn wedi blwyddyn yn ddiwarant. Arweiniodd hyn at beidio â gallu pennu targedwyd cyflawnadwy'n glir. Hefyd, roedd nifer o'r camau gweithredu a'r tasgau yn CGHT cyntaf Caerdydd yn ddyheadau ac yn dibynnu ar arian grant nas cadarnhawyd. Yn ystod cyfnod 10 mlynedd y CGHT, lleihaodd arian grant yn sylweddol bob blwyddyn, a effeithiodd ar nifer o dasgau. At hynny, er taw cyfanswm y costau amcangyfrifiedig a gyhoeddwyd i bob tasg CGHT oedd £1,281,100, arian grant gwirioneddol y CGHT dros y cyfnod 10 mlynedd oedd £319,828 ac roedd grantiau ategol o £274,938. Roedd hefyd gyllid refeniw mewnol blynyddol (£129,702) a gwmpasodd gwaith cynnal a chadw a gwaith llawr a defnyddiwyd rhywfaint o hyn i ategu tasgau CGHT fel arian cyfatebol. Gweler y graffiau a'r tablau ariannol ar ddiwedd y ddogfen hon am fanylion.

e) **Dim system Rheoli Project:** Nid oedd adnodd rheoli project penodol i helpu i gyhoeddi, monitro ac adrodd cynnydd tasgau ROWIP. Er y bwriedir defnyddio system CAMS i reoli'r rhwydwaith ac adrodd ar gynnydd, yn ymarferol daethai'n rhy gostus i'w defnyddio ac nid oedd yn ymwneud yn benodol â thasgau ROWIP. Tua diwedd y cyfnod 10 mlynedd, mabwysiadwyd y system AMX ac mae wrthi'n cael ei defnyddio a'i diweddaru i helpu i gynnal cynllunio cynnal a chadw'r rhwydwaith hawliau tramwy (HTC). Diweddarwyd y LAF ar gynnydd y CGHT ac roedd yn rhan o brojectau penodol ond nid adolygwyd y CGHT yn flynyddol/pob tair blynedd. Bydd y system AMX yn parhau i gael ei diweddaru a'i haddasu i fodloni anghenion y rhwydwaith HTC, fel rhan o'r CGHT newydd.

f) **Newidiadau staff:** O fewn oes y CGHT cyntaf, roedd newidiadau staff a arweiniodd at y mater o drosglwyddo a dilyniant tasgau a chynnydd CGHT, fel ni ellid rhoi sylwadau llawn ar rai tasgau'n yr adolygiad hwn.

Fodd bynnag, er gwaetha'r ffactorau hyn, cyflawnodd y tîm HTC nifer o'r tasgau ac mewn rhai achosion rhagorwyd arnynt – yn enwedig o ran dod o hyd i anghysondeb yn y Map Diffiniol a'i gofnodi (gweler tasg 1 isod) a hefyd arloesi menter brand a gwefan 'Awyr Agored Caerdydd'.

**Awyr Agored Caerdydd:** Roedd y fenter i greu brand a gwefan **Awyr Agored Caerdydd (AAC)** yn gyflawni pwysig a ddeilliodd o'r broses CGHT gyntaf, drwy drafodaethau â thimau perthnasol y Cyngor (gan gynnwys Parciau, Awdurdod yr Harbwr, Teithio Llesol) a ymgynghorwyr ar broses a chynnydd y CGHT. Daethai'n amlwg fod nifer o nodau ac amcanion ar y cyd yn y timau, gyda chyfleoedd i gyflawni projectau ar y cyd posibl, gan arwain at gytundeb y byddai'n ddefnyddiol cael man canolog i gyfathrebu â'r cyhoedd ynghylch yr holl weithgareddau awyr agored yng Nghaerdydd. Ar ôl cytuno ar gynnwys a dylunio, daethai'r brand AAC yn fan canolog i'r timau gydweithio ar amryw brojectau ac mae'n adnodd defnyddiol i'r cyhoedd. Caiff ei ddiweddaru'n rheolaidd i'w gadw'n ddiweddar.

# Crynodeb o Adolygiad o'r CGHT cyntaf – 16 Nod Allweddol a Chamau Targedig

| Tasg Blaenoriaeth | Nodau Allweddol | Uchafbwyntiau allweddol Camau Gweithredu Targedig |
|---|---|---|
| 1. | Map Diffiniol (MD): Datrys anghysondeb a chreu MD cyfoes i Gaerdydd | ▪ Pob map a datganiad MD drafft i'w cwblhau drwy Orchmynion Addasu Map Diffiniol (GAMD). Mae'r map diwygiedig ar gael 'yn fyw' ar i-share Cyngor Caerdydd Disgwyliwn ailgyhoeddi'r MD erbyn diwedd 2019.<br>▪ Nodi llwybrau a chilffyrdd coll nad ydynt wedi'u cofrestru; roedd 23 o lwybrau wedi'u hawlio a'u cadarnhau dan Adran 53 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Byddwn yn parhau i nodi llwybrau newydd yn y ROWIP newydd.<br>▪ Roedd y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) yn ddull defnyddiol i Ddatblygwyr i roi cyngor ar ymrwymiadau statudol profi ardal ddatblygu bosibl ar gyfer Hawliau Tramwy Cyhoeddus ac ymgynghori â'r tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Mae'r Nodyn Canllaw Technegol (NCT) Hawliau Tramwy Cyhoeddus nawr yn disodli'r CCA HTC ac yn cael ei roi i Ddatblygwr gan y tîm Cynllunio ar y cam ymgeisio. |
| 2. | Cyfeirnodau/ Gwybodaeth: Gwella gwelededd y rhwydwaith HTC ar lawr gwlad | ▪ Y llwybrau blaenoriaeth oedd y llwybrau hynny y tybiwyd eu bod y rhai mwyaf poblogaidd yng Nghaerdydd ar gyfer hamdden a chymudo; cawsant eu nodi gan ein partneriaid, a hefyd gosodwyd byrddau gwybodaeth ar y cyd â'r Tîm Cefn Gwlad.<br>▪ Arwyddion o ffyrdd metlin; mae'r tîm HTC bellach yn defnyddio rhaglen AMX, gan sicrhau bod llwybrau dinesig wedi dod yn rhan o'r cynllun cynnal a chadw cyffredinol. |
| 3. | Cyhoeddusrwydd a hyrwyddo: Gwella ymwybyddiaeth o HTC | ▪ Un o'r prif gyflawniadau o'r broses CGHT oedd creu brand, cynnwys gwefan a dyluniad Awyr Agored Caerdydd (AAC) yn sgil cydweithredu gyda phartneriaid mewnol y Cyngor (gan gynnwys Awdurdod yr Harbwr a Pharciau) fel modd o gydweithio ar brojectau amrywiol yn hyrwyddo pob gweithgaredd awyr agored. Mae rhagor o wybodaeth a chynnwys yn cael eu hadolygu'n barhaus ac mae'n adnodd poblogaidd a defnyddiol i'r cyhoedd.<br>▪ Arolwg cyhoeddus; cafodd 673 eu cwblhau a rhoddwyd trosolwg o'r prif ganlyniadau yn y CGHT cyntaf (tudalennau 36-38) a chaiff ei gymharu â chanlyniadau arolwg yn y CGHT cyntaf. Ymgynghorwyd â grwpiau a sefydliadau eraill, gan gynnwys Cynghorau Cymuned, Cerddwyr, Cymdeithas Ceffylau Prydain, Ymgyrch Seiclo Caerdydd, Sefydliad y Deillion Caerdydd a Fforwm Ieuenctid Caerdydd (tudalennau 37-40).<br>▪ Dosbarthu taflenni i dafarndai/caffis gwledig lleol a chanolfannau cymunedol lle maent yn cysylltu â llwybrau sy'n cael eu hyrwyddo. |
| 4. | Teithiau Cylchol: Creu teithiau cerdded cylchol ategol | ▪ Mae creu teithiau cylchol wedi gwella hygyrchedd, h.y. gwaredu camfeydd lle y bo'n bosibl neu osod camau ar lethrau serth, ac amodau arwyneb yr HTC presennol. Mae'r teithiau cerdded hyn ar gael i'w lawrlwytho ar wefan AAC. Hefyd, mae gan yr adran Parciau raglen o Deithiau Tywys a Digwyddiadau sy'n cynnal gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn.<br>▪ Roedd gan lwybrau a hyrwyddwyd arwyddion arbennig, byrddau gwybodaeth wedi'u gosod ar y safle a thaflenni i'w lawrlwytho/argraffu i annog mwy o ymweliadau. Gosodwyd cyfrifwyr pobl hefyd i weld a oedd mwy o bobl yn defnyddio'r llwybrau.<br>▪ Mae arweinwyr Cerdded Er Lles Iechyd gwirfoddol yn defnyddio'r llwybrau hyn ar gyfer teithiau cerdded sy'n cael eu trefnu; rheolir cyllid Cerdded Er Lles Iechyd gan Cerddwyr Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| 5. | Llwybr Arfordir Cymru (LlAC): Sicrhau cyfranogiad a chwblhau tasgau | *Roedd yna gyllid grant ar wahân ar gyfer LlAC, felly ni chafodd unrhyw dasgau allweddol eu cynllunio fel rhan o'r CGHT cyntaf. Fodd bynnag, gan fod y LlAC (agorwyd Mai 2012) wedi'i gynnwys yn y CGHT cyntaf a bellach yn rhan o'r rhwydwaith HTC, cafodd sylwadau cyffredinol eu cynnwys.*<br>▪ Yn 2008, gosodwyd pont ar Forglawdd Bae Caerdydd yn cysylltu Penarth â Bae Caerdydd, sydd wedi bod yn boblogaidd iawn.<br>▪ Crëwyd 2 Hawl Dramwy Gyhoeddus newydd; Trowbridge 1 ar hyd y mur morol (dan A 26 Deddf Priffyrdd 1980) ac ar hyd glan orllewinol Afon Rhymni (dan A 26 y Ddeddf Priffyrdd, gyda dyraniad tir ym meddiant Dŵr Cymru), gan ychwanegu 5.1km i'r rhwydwaith HTC.<br>▪ Oherwydd yr amryw fesurau gwarchod bioamrywiaeth yn Aber Afon Hafren roedd angen cynnal Asesiadau Priodol i Gaerdydd, ac yna ar y cyd â chynghorau Casnewydd a Sir Fynwy, i ystyried effaith y llwybr. Yn dilyn hyn, roedd gwaith daear yn destun cyfyngiadau tymhorol. |
| 6. | Hygyrchedd HTC: Sicrhau bod llwybrau realistig a rhesymol i ddefnyddwyr HTC anabl ac sydd â nam | ▪ Gwnaeth Mynediad Gwledig i Bawb redeg tan fis Chwefror 2010 ac roedd yn cynnwys Swyddog Cydraddoldeb Cyngor Caerdydd a sefydlodd Grŵp Ffocws Mynediad Cyngor Caerdydd (GFfMCC) sy'n rhan o ymgynghoriadau ar y CGHT newydd.<br>▪ Mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth i wella mynediad i bawb ar draws y rhwydwaith llwybrau. Mae tua 50 o gamfeydd ar ymyl y ffordd a chaiff 10 camfa sydd wedi'u lleoli i ffwrdd o ymyl ffordd eu disodli gan gatiau, felly byddant wedi'u cynnwys yn y CGHT newydd.<br>▪ Nid yw 'Llwybrau Cylchol Taith Taf' na'r 'Pecyn Teithiau Cerdded Iach a Phrydferth' yn nodi lleoliadau'r rhwystrau ar hyn o bryd, ond mae Llwybrau Cylchol Taith Taf yn disgrifio'r llwybr, e.e. llethrau a grisiau. Yn y dyfodol, wrth i daflenni gael eu hadolygu neu eu diweddaru, caiff hyn ei gynnwys i helpu'r cyhoedd i gynllunio eu llwybrau. Maent ar gael i'w lawrlwytho o safle Awyr Agored Caerdydd. Nid ydynt wedi'u hail-argraffu oherwydd costau a dulliau amgen o hysbysebu ac ystyrir hyrwyddo'r llwybrau drwy apiau symudol a darparu fformatau argraffedig mewn lleoliadau dynodedig ledled y ddinas. |
| 7. | Cynnal a Gorfodi: Gwneud gweithdrefnau rheoli ffurfiol ac effeithlon | ▪ Mae'r rhaglen AMX â mapiau ar y wefan HTC er mwyn i'r cyhoedd allu 'Rhoi Gwybod am Broblem' gydag unrhyw HTC ar-lein.<br>▪ Mae grwpiau fel y FfMLl, Cerdded Er Lles Iechyd ac AAC wedi bod yn ddefnyddiol iawn o ran nodi problemau cynnal a chadw. Bydd mwy o gyswllt â Chynghorau Cymuned yn rhoi mwy o gyngor i'r tîm HTC ar lwybrau yn eu hardal y mae angen gwneud gwaith arnynt i helpu i gynllunio gwaith cynnal a chadw.<br>▪ Mae llythyrau gorfodi yn cael eu hanfon, ac mae cyfeiriad at y canllaw HTC ar y wefan. |
| 8. | Diogelwch: Rheoli pryderon diogelwch posibl | ▪ Drwy hyrwyddo teithiau tywys a llwybrau cylchol, mae defnydd o lwybrau wedi cynyddu.<br>▪ Mae'r tîm HTC wedi creu perthnasau â'r rhan fwyaf o Gynghorau Cymuned Caerdydd fel ffynonellau gwybodaeth ar lawr gwlad ar faterion diogelwch.<br>▪ Dylai datblygiadau newydd (e.e. CDLl) gydymffurfio â Chanllawiau Cynllunio Strategol i leihau perygl i'r cyhoedd. |

| | | |
|---|---|---|
| 9. | Beicio: Ymestyn y rhwydwaith o lwybrau beicio a gosod arwyddion | ▪ Mae hyn yn cynnwys cysylltu â'r Tîm Polisi Trafnidiaeth (TPT) sydd wedi creu Llwybrau Strategol sy'n cysylltu â HTC gan hefyd gysylltu â'r Map Rhwydwaith Integredig a'r CDLl i greu rhwydwaith cydlynol.<br>▪ Mynychodd y Swyddog HTC gyfarfodydd rhanbarthol am Daith Taf; sicrhaodd y grŵp fod yr arwyddion a'r marciau ar hyd y llwybr yr un peth. Mae Sustrans bellach yn cynnal arwyddion ac yn llunio taflenni gwybodaeth Taith Taf.<br>▪ Mae Sustrans wedi cynnal asesiad ac ymgynghoriad o Daith Taf ynghyd; roedd hyn yn cynnwys gwrthdaro rhwng defnyddwyr sy'n rhannu'r llwybr, ac yna gwnaed cynigion amrywiol i'w gweithredu yn y dyfodol; gallai hyn gael ei gynnwys yn y CGHT newydd.<br>▪ Yn dilyn cymeradwyaeth gan yr adran Parciau, cafodd rhwystrau beiciau modur eu symud gan TPT ar gamau cynnar y CGHT cyntaf. Mae'r adran Parciau yn delio â rhwystrau ym mholisi Parciau a Mannau Agored Caerdydd. |
| 10. | Llwybrau Ceffyl: Cynyddu nifer y llwybrau hawdd eu defnyddio i farchogion | ▪ Mae llwybr ceffyl caniataol yn cael ei greu o amgylch llynnoedd Canada (Pentyrch) i greu llwybr cylchol i fynd â marchogion oddi ar y ffyrdd prysur, ond bu oedi oherwydd cyllid a chytundeb cyfreithiol rhwng y Cyngor a'r tirfeddiannwr.<br>▪ Gosodwyd arwyneb newydd ar rannau o'r lonydd gwyrdd dros y blynyddoedd i wella'r rhwydwaith oddi ar y ffordd i farchogion, ond mae angen cynnal a chadw'r llwybrau hyn. Y prif broblemau oedd y diffyg cyllid ac adnoddau staffio.<br>▪ Gosodwyd arwyddion ar y briffordd i rybuddio gyrwyr am geffylau mewn 10 lleoliad lle mae llwybrau ceffyl sy'n HTC yn ymuno â'r briffordd fabwysiedig. Gallai adolygu'r arwyddion hyn fod yn un o nodau'r CGHT newydd. |
| 11. | Llwybrau blaenoriaeth: Nodi a rheoli llwybrau blaenoriaeth | ▪ Fel rhan o Awyr Agored Caerdydd mae'r holl bartneriaid yn cyfrannu at hyrwyddo ar y cyd, sy'n digwydd yn barhaus.<br>▪ Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd y tîm HTC a'r tîm cynnal HTC a mynychir cyfarfodydd perthnasol eraill gan gynnwys FfMLl a Chynghorau Cymuned – cwblhawyd yr holl dasgau (100%). Bydd hon yn rhaglen cynnal a chadw barhaus, reolaidd (AMX).<br>▪ Gosodwyd 'cyfrifwyr pobl', ond adolygir sut mae data'n cael ei gasglu a'i reoli. Bydd hon yn dasg â blaenoriaeth yn y CGHT newydd, ac ystyrir symud rhai i leoliadau newydd. |
| 12. | Archwilio'r posibilrwydd o gael cyllid o ffynonellau ychwanegol | ▪ Cafwyd grantiau ychwanegol o brojectau partneriaeth drwy AAC; Cynllun Cerdded Er Lles Iechyd Caerdydd a Phrojectau Cefn Gwlad, a oedd yn cynnwys mentrau drwy Ecolegydd ac Adran Parciau'r Cyngor. Darperir cyllid y project gan Lywodraeth Cymru.<br>▪ Arferai Tîm Cefn Gwlad y Cyngor reoli'r projectau hyn, sydd nawr yn cael eu hariannu'n rhannol gan Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, grant refeniw sengl i ALlau yng Nghymru i gyflawni blaenoriaethau Gweinidogol a buddiannau amrywiol i gefnogi Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). |
| 13. | Llwybrau defnydd a rennir: Rhaglen yn addysgu pobl i fod yn ystyriol o ddefnyddwyr eraill y llwybr | ▪ Fel rhan o'i rôl, mae FfMLl (sy'n cynrychioli amrywiaeth o grwpiau defnyddwyr) yn ymateb yn weithredol i fentrau ac ymgynghoriadau newydd.<br>▪ Sylwer; ers cyhoeddi'r CGHT yn 2008, mae'r Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus bellach yn cynnwys cymal ar reoli cŵn. Nid yw Gorchmynion Rheoli Cŵn yn cael eu defnyddio mwyach.<br>▪ Parhau i gefnogi a hyrwyddo Cod Ymddygiad Caerdydd ar lwybrau a rennir ac ystyried cyfleoedd hyfforddi i wirfoddolwyr, e.e. cymorth cynnal a chadw, Arweinwyr Teithiau Cerdded ac ati, fel yr hyrwyddir ar wefan AAC.<br>▪ Arwyddion; rhywfaint o gynnydd gyda'r Cod Ymddygiad uchod. Gall gwaith pellach fod yn un o nodau'r CGHT newydd.<br>▪ Mae'r Cod Cefn Gwlad ar gael drwy ddolen ar y wefan HTC ac AAC. |

| | | |
|---|---|---|
| 14. | Rhoi gwaith cynnal a chadw'r rhwydwaith ar gontract allanol: a yw'n bosibl trosglwyddo cyfrifoldeb | ▪ Cysylltwyd â Chynghorau Cymuned, grwpiau cymunedol ac Adrannau'r Cyngor i ddeall lle mae angen gwneud gwelliannau ar y rhwydwaith a chreu cyfleoedd i weithio gyda gwirfoddolwyr ar brojectau ar rwydwaith y HTC. Gall hyn symud ymlaen fel rhan o'r CGHT newydd. |
| 15. | Sbwriel ar HTC: Sut i ddelio â hyn ymarferol | ▪ Mae 'Rhoi gwybod am broblem' yn cael cyhoeddusrwydd drwy wefan Cyngor Caerdydd ac mae'r tîm HTC yn parhau i gysylltu â Rheoli Gwastraff i roi gwybodaeth am dipio anghyfreithlon fel mesur ymatebol. Mae Rover Way yn fan problematig; mae'r tîm HTC yn gweithio gyda Rheoli Gwastraff, Swyddogion Cyngor amrywiol a sefydliadau i ddatrys y broblem, ond mae hon yn broblem ar gyfer safle penodol yn hytrach na phroblem gyffredinol ar draws y rhwydwaith. Bydd y system AMX yn fodd o rifo problemau a mannau problematig ailadroddus.<br>▪ Mae Cadwch Gymru'n Daclus a Cadwch Gaerdydd yn Daclus yn taclo sbwriel yng Nghaerdydd gyda gwirfoddolwyr; gwneir hyn yn annibynnol ar y mwyaf ac nid yw'n ymwneud â Hawliau Tramwy Cyhoeddus, fodd bynnag cliriwyd ardaloedd o LlAC cyn agoriad swyddogol LlAC. |
| 16. | Canlyniadau cyflym ac arolygon rhwydwaith: Annog defnydd cyhoeddus o HTC. Cynnal arolygon rheolaidd | ▪ Cynhaliwyd arolwg o'r llwybrau cerdded gan nodi'r holl ddodrefn, math yr arwyneb a chyflwr y llwybrau, ond ni chafodd ei gwblhau. Rhoddodd yr arolwg fanylion am gyflwr, math ac unrhyw ofynion cynnal a chadw.<br>▪ Helpodd hyn i nodi lle roedd angen gwneud gwelliannau i wella mynediad i bawb.<br>▪ Er bod y system CAMS wedi'i defnyddio'n wreiddiol i gofnodi'r materion hyn, tua diwedd cyfnod y CGHT cyntaf, dechreuwyd defnyddio'r system AMX. |

# Adolygiad llawn o'r CGHT (2008-2018) cyntaf

Mae'r Adolygiad hwn yn cynnwys edrych ar yr 16 Nod Allweddol a amlinellir yn CGHT cyntaf Cyngor Caerdydd, gyda Chamau Gweithredu (63) a Thasgau (213) is-adrannol cysylltiedig. Mae'r adroddiad yn defnyddio sgorau Dangosydd Perfformiad i benderfynu ar lefel y cyflawniad i bob cam gweithredu a thasg. Bydd yr adroddiad llawn hwn ar gael ar y wefan HTC, gyda dolen ar yr Asesiad Newydd (Cam 4). Bydd crynodeb yn rhan o'r Asesiad Newydd, y CGHT newydd drafft (Cam 5) a cham olaf (Cam 6) y CGHT newydd.

| | |
|---|---|
| **CGHT** | **= Cynllun Gwella Hawliau Tramwy** |
| **HTC** | **= Hawliau Tramwy Cyhoeddus** |
| **MD** | **= Map Diffiniol** |
| **GAMD** | **= Gorchymyn Addasu Map Diffiniol** |
| **AO** | **= Arolwg Ordnans** |
| **AG** | **= Arolygiaeth Gynllunio** |
| **AAC** | **= Awyr Agored Caerdydd** |
| **LlAC** | **= Llwbyr Arfordid Cymru** |
| **FfMLl** | **= Fforwm Mynediad Lleol** |

| | |
|---|---|
| **RAFA** | **= Mynediad Gwledig I Bawb** |
| **CELlI** | **= Cerdded er Lles Iechyd** |
| **CNC** | **= Cyfoeth Naturiol Cymru** |
| **TCM** | **= Tîm Cyfrifiadua Mewnol** |
| **AMX** | **= Arbenigwr Rheoli Asedau Cyngor Caerdydd** |
| **TPT** | **= Tîm Polisi Trafnidiaeth** |
| **BTCV** | = Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain |
| **CCV** | **= Gwirfoddolwyr Cadwraeth Caerdydd** |
| **CCAFG** | **= Grŵp Fform Mynediad Cyngor Caerdydd** |

| | |
|---|---|
| **BHS** | **= Cymdeithas Ceffylau Brydeinig** |
| **CCA** | **= Canllaw Cynllunio Atodol** |
| **CDLl** | **= Cynllun Datblygu Lleol** |
| **ALl** | **= Awdurdodau Lleol** |
| **SA** | **= Sicrwydd Ansawdd** |
| **GHTC** | **= Gweithgor Hawliau Tramwy Cymru** |
| **GRLlAC** | **= Grŵp Rhanbarthol Llwybr Arfordir Cymru** |
| **CAMS** | **= System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad** |

**Sgôr dangosydd perfformiad:**

| | |
|---|---|
| **0%** | **= Heb ddechrau** |
| **20%** | **= Dechreuwyd, parhaus** |
| **40%** | **= Parhaus, cynllunio** |
| **60%** | **= Cwblhawyd yn rhannol** |
| **80%** | **= Cwblhawyd yn sylweddol** |
| **100%** | **= Cwblhawyd** |

| Prif Nod | Camau Targed | Tasg | Canlyniad/Cam Gweithredu | Sylwadau Pellach | Dangosydd Perfformiad | Ystyriwyd ar gyfer CGHT 2019-29 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.0** | **Map Diffiniol (MD): Datrys anghysondeb a chreu MD cyfoes i Gaerdydd** | | | | | |
| **1.1** | **Yn cynnwys ardaloedd/llwybrau a eithriwyd yn flaenorol – *gweler hefyd dasg 1.2*** | | | | | |
| | 1) | Nodi HTC mewn ardaloedd a eithriwyd yn flaenorol (ar ôl 1 Ebrill 1954) | * Nodi 23 HTC nas cofnodwyd yn flaenorol. O'r rhain: mae 10 wedi'u cadarnhau, 7 yn destun proses gyfreithiol (ar adeg cyhoeddi), 6 chais anghymwys wedi'u gwrthod.<br>* GAMDau i bob plwyf (yn cynnwys ardaloedd a eithriwyd) | ▪ Wrth wirio'r cofnodion llwybrau, canfuwyd anghysondeb nas cofnodwyd yn y **Gorchymyn Addasu Map Diffiniol (GAMDau)** felly cynlluniodd y tîm HTC i nodi'r anghysondeb a chadarnhau GAMD pob plwyf i ail-gyhoeddi'r **Map Diffiniol (MD)** newydd erbyn 2019; hwn fyddai'r tro cyntaf ers cyhoeddi'r mapiau gwreiddiol ym 1954, a fyddai'n dangos nifer y newidiadau a wnaed i'r rhwydwaith dros y blynyddoedd. Roedd yr anghysondebau'n cynnwys Plwyfi Cyncoed, Llanisien, Llanrhymni, Llandaf a'r Rhath.<br>▪ Gan ddefnyddio Adran 53 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, gydag Adran 31 Deddf Priffyrdd 9180, gall y cyhoedd hawlio llwybrau 'megis hawl' er dros 20 mlynedd neu fwy o ddefnydd di-dor; ymchwiliodd y tîm HTC i lwybrau a hawliwyd gan y cyhoedd a phetaent yn gymwys gwnaethpwyd gorchymyn cyfreithiol HTC.<br>▪ Roedd ceisiadau a wrthodwyd fel rheol ar y sail nad oeddent yn gymwys e.e. at ddefnydd personol ac nid i'r cyhoedd yn gyffredinol.<br>▪ Helpodd y project hwn i nodi ac ychwanegu ffyrdd coll perthnasol i Gaerdydd cyn dyddiad cau 1 Ion 2026; ar ôl hyn, ni chaniateir cofnodi ffyrdd coll nas cofnodir ar yr HTC. ON: Mae'r dyddiad cau hwn yn benodol ar gofnodi ffyrdd coll; gallai llwybrau eraill gael eu hychwanegu o hyd. | 100% | |
| | 2) | Ychwanegu llwybrau at y sail fapiau (1:10,000), | *Ychwanegu llwybr i'r sail fapiau | ▪ Anghysondebau a llwybrau newydd wedi'u hychwanegu fel y'u nodir yn 1) uwch y sail map.<br>▪ Gwnaed mapio ar raddfa 1:10,000 er mwyn dangos manylion alinio llwybrau gwell. | 100% | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | llunio datganiadau diffiniol | *Gwnaed datganiad i bob plwyf | ▪ Gweithio gyda TCM i sicrhau bod aliniad llwybrau'n gywir.<br>▪ Datganiadau diffiniol a gwblhawyd i bob Plwyf. | | |
| | 3) | Digideiddio'r sail fapiau i 1:10,000 | Lluniwyd fersiwn ar-lein o'r MD | ▪ Digideiddio anghysondebau a llwybrau newydd wedi'u hychwanegu fel y'u nodir yn 1) uchod y sail map.<br>▪ Ychwanegwyd haenau map i i-share GIS a MapInfo Cyngor Caerdydd. | 100% | |
| | 4) | Trosglwyddo 3) i 1:25,000 ac argraffu | Lluniwyd fersiwn brint o'r MD | ▪ Trosglwyddo'r raddfa wedi'i digideiddio 1:10,000 i'r raddfa MD gyfreithiol-ofynnol o 1:25,000.<br>▪ Mae mapio y gellir eu lawrlwytho'n hygyrch i'r cyhoedd (i-share) naill ai fel pdf neu sgrînlun. Nis argraffwyd. | 80% | ✓ |
| | 5) | Proses gyfreithiol i greu HD yn ffurfiol | Crëwyd, aros i PINS gadarnhau | ▪ Cyfreithloni anghysondebau a llwybrau newydd a nodwyd yn 1) uchod.<br>▪ Manylion GDMD wedi'u hychwanegu i fap ar raddfa 1:25,000 fel sy'n ofynnol ar gyfer mapio AO.<br>▪ Crëwyd, aros i'r **Arolygiaeth Gynllunio (AG)** gadarnhau'r gorchymyn i'w gadarnhau. | 80% | ✓ |

**Cam Gweithredu 1.1 – Sylwadau cloi:**

- Roedd hwn yn ymdrech tîm fawr gan HTC sydd wedi sicrhau bod y DM i Gaerdydd mor gyfoes â phosibl.
- Mae'r holl fapiau a datganiadau MD wedi'u cwblhau gan GDMDau (gan gynnwys cyfieithiadau i'r Gymraeg); yn ymaros proses gyfreithiol ar gyfer cais Adran 53 (W&CA 1981) a fydd yn cael ei anfon i AG. Yna bydd AG yn ymchwilio cyn cadarnhad llawn yr holl GDMDau. Yn dilyn hyn, byddwn yn gallu cyhoeddi fersiwn brint yn gyhoeddus, ond gallwch weld y map diwygiedig 'yn fyw' nawr yn Cardiff Council i-share Gweler hefyd Fap 1 a 4 ar yr Asesiad Newydd.
- Gall amserlen cadarnhau MD drwy AG amrywio, ond disgwyliwn ail-gyhoeddi'r MD erbyn diwedd 2019.

| | |
|---|---|
| **1.2** | **Ymchwilio MD cyfredol Morgannwg-** ***i'w wneud yn yr un ffordd â MD Caerdydd; cyfeiriad gyda phob tasg yn 1.1*** |

**Cam Gweithredu 1.2 – Sylwadau cloi:**

- Dylid nodi pan newidiodd hen siroedd Morgannwg a Sir Fynwy, y gwnaeth MD Morgannwg i bob pwrpas ymestyn ffiniau Caerdydd. Gweler 'Nodiadau'; C. Newidiadau ffin am fanylion.
- Gan yr ystyriwyd pob llwybr yng Nghaerdydd yn 1.1, ystyriwyd MD Morgannwg ar yr un pryd (4 tasg x 100%).

| | |
|---|---|
| **1.3** | **Cadarnhau'r map diffiniol ac ardaloedd a eithriwyd a map Morgannwg –** ***cyfeiriad â thasgau 1.1 ac 1.2 uchod*** |

**Cam Gweithredu 1.3 – Sylwadau cloi:**

- Er i hyn gael ei gofnodi ar y CGHT cyntaf fel cam gweithredu a dargedir, fe'i cwmpaswyd i bob pwrpas yn y gwaith a wnaed yng Ngham 1.1 ac 1.2 (3 tasg; 2 x 100%, 1 x 80%)
- Mae 400 tudalen o fapiau lliain, sydd ar gael i'r cyhoedd eu gweld yn yr hen swyddfeydd yn Brindley Road. Maent bellach wedi'u sganio gyda'r mapiau gwreiddiol wedi'u diogelu yn adeilad Archif y Maltings. Gall y cyhoedd weld y mapiau ar gais o hyd neu gallwn anfon pdfs electronig o amryw fapiau hanesyddol yn dyddio'n ôl i 1876.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.4** | **Gwaith parhaus i nodi llwybrau nas cofrestrir i'w cynnwys yn y MD yn y dyfodol** | | | | | |
| | 1) | Drwy FfMLl ac amryw grwpiau, ceisio mwy o lwybrau | Gwaith parhaus a fydd yn rhan o'r CGHT newydd | ▪ Nod hyn yw dod o hyd i gilffyrdd a gollwyd, llwybrau newydd a llwybrau poblogaidd a ddefnyddir 'fel hawl' ond nad ydynt yn HTC a gofnodir yn gyfreithiol, er mwyn ystyried eu cynnwys ar y MD yn y dyfodol, cyn dyddiad olaf 2026 (gweler 1.1).<br>▪ Ni ddatblygwyd cilffyrdd a gollwyd oherwydd diffyg arian iawndal i berchenogion ac adnoddau staff.<br>▪ Mae sawl aelod o'r cyhoedd wedi gwneud cais dan Adra 53 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, oherwydd eu defnydd o'r llwybrau 'fel hawl'; gweler 1.1), pwynt 2 | 60% | ✓ |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 1.4 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Gallai unrhyw lwybrau a nodwyd o'r newydd fod yn dasg â blaenoriaeth i'r CGHT newydd.<br>▪ Yn ystod y CGHT cyntaf, nid yw'r FfMLl/amryw grwpiau wedi gwneud cais i gofnodi unrhyw lwybrau newydd, ond gwnaethai aelodau o'r cyhoedd gais. | | | | | | |
| **1.5** | **Cyflogi Swyddog MD penodedig.** ***SYLWCH: Nis cyflawnwyd, oherwydd nad oedd arian ar gael gan CCGC (CNC bellach)*** | | | | | |
| **Cam Gweithredu 1.5 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Cafodd HTC wybod yn fuan ar ôl cyhoeddi'r CGHT 1af na fyddai unrhyw arian grant ar gael ar gyfer y swydd hon gan CCGC (CNC bellach) ac nad oedd ffrydiau ariannol eraill ar gael neu wedi'u nodi (2 dasg x 0%).<br>▪ Fodd bynnag, gan fod cyflawni adolygiadau i'r MD yn statudol, deliodd un o'r tîm HTC gwreiddiol â materion MD fel rhan o'i rôl. Ar hyn o bryd nid yw'r swyddog hwn yn delio'n unig â materion MD, felly mae'r tîm HTC bellach yn delio â nhw, sydd wedi arwain at broses hirach. Yn anochel, mae hyn wedi cael effaith ganlyniadol ar dasgau CGHT eraill. | | | | | | |
| **1.6** | **Beth yw'r cymalau HTC yn y Canllawiau Cynllunio Ategol (CCA)**<br>***SYLWCH: Cyhoeddwyd rhain yn Hydref 2006; mae nodiadau canllaw technegol (NCT) y CDLl bellach wedi'u disodli*** | | | | | |
| | 1) | CCA i'w gosod ar wefan Awyr Agored Caerdydd (AAC) | Rhoi ar dudalen lanio HTC | ▪ Rhoddodd y **Canllaw Cynllunio Atodol** (**CCA**) ganllawiau i Ddatblygwyr Tai, Tirfeddianwyr ac eraill yr oedd eu datblygiadau tir yn debygol o effeithio ar HTC yn yr ardal, i gynorthwyo i ddeall pam fod angen ystyried HTC yn ymrwymiad statudol.<br>▪ Mae datblygwyr bellach yn ymgynghori â thîm HTC wrth gynnig datblygiadau tir.<br>▪ Rhoddwyd y CCA ar wefannau HTC Cyngor Caerdydd am eu bod yn rhoi gwybodaeth strategol penodol i Gynllunwyr ac yn gysylltiad ag adrannau eraill.<br>▪ Mae AAC yn fodd i helpu pobl i gael gwybodaeth am weithgareddau awyr agored, nid oedd yn berthnasol i Gynllunwyr felly ni roddwyd y CCA ar y wefan AAC. | 100% | |
| | 2) | Bydd y CCA ar gael yn swyddfeydd Brindley Rd | Wedi'i gwblhau | ▪ Er yn wreiddiol ar gael o swyddfeydd Brindley Rd, pan gaeodd y swyddfeydd hyn yn 2012, roedd y CCA ar gael i'w gweld yn Neuadd y Sir o'r Adran Gynllunio a'r Tîm HTC. | 100% | |
| | 3) | CCA i'w cyfeirio atynt ar ohebiaeth i Gynllunwyr | Wedi'i gwblhau | ▪ Sefydlu canllaw HTC.<br>▪ Mae'r Canllawiau CDLl bellach yn disodli AAC. | 100% | |
| **Cam Gweithredu 1.6 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Roedd y CCA yn ddull defnyddiol i Ddatblygu i roi cyngor ar ymrwymiadau statudol profi ardal ddatblygu bosibl ar gyfer HTC ac ymgynghori â'r Tîm HTC.<br>▪ Mae'r pwyntiau T1, T8 a K17 y CDLl (cyf CCA Seilwaith Gwyrdd, sy'n cyfeirio at y the **Nodiadau Canllaw Technegol HTC** **(NCT)**) bellach yn disodli'r CCA HTC, ond mae angen I egwyddorion cynllunio o hyd ystyried HTC. Byddai hyn fel arfer yn cael ei gyflenwi gan y tîm Cynllunio i Ddatblygwr ar y cam gwneud cais. Ymgynghorir â'r Tîm HTC ar geisiadau a allai effeithio ar lwybrau HTC, ond nid o reidrwydd llwybrau a ddefnyddir 'fel hawl'.<br>▪ Gweler Map 4 ar yr Asesiad Newydd i gyfeirio at lwybrau a grëwyd yn ystod y CGHT cyntaf dan adran 53 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. | | | | | | |
| **2.0** | **Cyfeirio/Gwybodaeth: Gwella gweledded y rhwydwaith HTC ar lawr gwlad** | | | | | |
| **2.1** | **Gosod mwy o arwyddion cyffredinol** | | | | | |
| | 1) | Nodi 10 llwybr â blaenoriaeth a gosod arwyddion ychwanegol i gyfeirio pobl | Cwblhawyd yn Sylweddol | ▪ Ymhlith y llwybrau y gosodwyd arwyddion arnynt (x10) roedd Llwybrau Elái a Rhymni, Mynydd-y-Garth, taith gylchol Tongwynlais-Y Wenallt, taith gylchol Sain Ffagan, teithiau cylchol Fforest Fawr (x3) a thaith gylchol Creigiau-Pentyrch a **Llwybr Arfordir Cymru** (LlAC). *ON: Mae'r rhwydwaith HTC yn cynnwys LlAC, sydd ag arian grant ar wahân, gweler Nod Allweddol 5.* | 100% | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2) | Edrychwch ar 'arfer gorau' gan gyrff ALl/twristiaeth eraill | Heb ddechrau | ▪ Heb ddechrau, ond mae tîm HTC yn rhan o **Gweithgor Hawliau Tramwy Cymru (GHTC)** y mae'n rhaid i holl swyddogion HTC ledled Cymru fynychu. Codir materion allweddol a'u trafod, gan gynnwys enghreifftiau 'arfer gorau'. | 20% | ✓ |
| | 3) | Yn seiliedig ar enghreifftiau, defnyddio arddull briodol | Nis cwblhawyd | ▪ Arwyddion wedi'u gosod ar lwybrau a Hyrwyddir (gweler 2.1 1)<br>▪ Gweler 2) hefyd | 80% | ✓ |
| | 4) | Yn dibynnu ar gyllid, gosod yn raddedig | Nis cwblhawyd | ▪ Mae'r rhaglen HTC wedi'i sefydlu ar raglen AMX ac mae arwyddion yn rhan o'r cynllun cynnal a chadw (gweler Cam Gweithredu a Dargedir 7.0) | 80% | ✓ |
| **Cam Gweithredu 2.1 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Y llwybrau â blaenoriaeth yw'r rhain a ystyrir y llwybrau mwyaf poblogaidd yng Nghaerdydd at ddibenion hamdden a chymudo; gwnaed hyn ar y cyd â phartneriaid (gweler B ar 'Nodiadau' isod). | | | | | | |
| **2.2** | **Sefydlu dangosydd perfformiad arwyddion i Gaerdydd** | | | | | |
| | 1) | Nodi HTC a ddefnyddir o briffyrdd ag arwyneb arnynt | Tasg wedi dechrau, parhaus | ▪ Mae'r gwaith o asesu'r holl lwybrau dinesig yn barhaus (lle y'u cysylltir â'r briffordd fabwysiedig yn yr amgylchedd dinesig) a bydd hyn yn penderfynu pa lwybrau sydd eisoes yn y safonau priffordd fabwysiedig, neu a allai fod angen arwyddion (hefyd gwelliannau arwyneb/mynediad). | 20% | ✓ |
| **Cam Gweithredu 2.2 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Oherwydd tîm HTC llai nid ystyriwyd hyn yn flaenoriaeth, ac nis gwnaed. Fodd bynnag gan fod y tîm HTC bellach yn defnyddio rhaglen AMX (gweler 2.1 a 7.0), cadarnhau bod llwybrau dinesig wedi dod yn rhan o'r cynllun cynnal a chadw cyffredinol.<br>▪ Bydd LAF yn gynwysedig mewn monitro ac adolygu'r rhaglen AMX yn y dyfodol. | | | | | | |
| **2.3** | **Gosod Byrddau Gwybodaeth ychwanegol – *croesgyfeirio â 2.1 a 4.0*** | | | | | |
| | 1) | Nodi 10 llwybr â blaenoriaeth (gweler 2.1) | Wedi'i gwblhau | ▪ Rhestru fel teithiau a hyrwyddir ar deithiau cylchol Cefn Gwlad (gweler Cam Gweithredu 4) hefyd Llwybrau Crwydro Bywyd Gwyllt (x10 taith). | 100% | |
| | 2) | Yn seiliedig ar brofiadau blaenorol ac AAC, nodi steil byrddau gwybodaeth | Wedi'i gwblhau | ▪ Roedd steil y byrddau gwybodaeth yn seiliedig ar ddyluniad gyda'r brand AAC.<br>▪ Parthed Cam Gweithredu 5: er nad yn rhan o'r ROWIP, gosodwyd y 3 Bwrdd Gwybodaeth LlAC wedi'u gosod ar hyd y llwybr. Gan fod y Swyddog LlAC yn ymdrin â Chaerdydd a Bro Morgannwg, er mwyn sicrhau dilyniant roedd i'r ddau ddyluniad tebyg, gyda brand a logos LlAC. | 100% | |
| | 3) | Yn dibynnu ar gyllid, gosod yn raddedig, targedu 1 y flwyddyn | Targed parhaus | ▪ 3 ar LlAC (gweler 2.1 a 5)<br>▪ 2 ar daith gylchol Tongwynlais – Y Wenallt<br>▪ 1 ar daith gylchol Sain Ffagan<br>▪ 2 ar deithiau cylchol Fforest Fawr<br>▪ 2 ar daith gylchol Creigiau - Pentyrch | 80% | ✓ |
| **Cam Gweithredu 2.3 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Gwnaed y dasg hon ynghyd â 2.1 a 4.0. Gweler hefyd 5.0.<br>▪ Gwnaed y rhain ar y cyd â'r Tîm Cefn Gwlad (gweler B yn 'Nodiadau'). | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2.4** | **Sicrhau bod mapiau ffyrdd ar gael yn fwy ar wefan Cyngor Caerdydd** | | | | | |
| | 1) | Sicrhau bod dolenni ar wefan AAC a HTC i system fapio ar-lein Cyngor Caerdydd | Wedi'i gwblhau | ▪ Dolenni map ar gael ar y ddwy wefan gan ddefnyddio i-share, system fapio Cyngor Caerdydd | 100% | |
| | 2) | Hawlfraint yn sicrhau y gall y cyhoedd lawrlwytho'r mapiau | Wedi'i gwblhau | ▪ Oherwydd cyfreithiau hawlfraint (AO), mae MD ar-lein y Cyngor ar gael i'r cyhoedd weld y rhwydwaith HTC (mapio i-share); mae modd argraffu mapiau fel pdf neu sgrînlun.<br>▪ Mae gan y wefan AAC gyfres o daflenni llwybr a Hyrwyddir gyda mapiau sydd ar gael i'w lawrlwytho a'u hargraffu. | 100% | |
| | 3) | Cysylltu â TCM i sicrhau bod mapiau'n gallu cael eu hargraffu | Wedi'i gwblhau; ar i-share | ▪ Gall y cyhoedd naill ai argraffu sgrînlun neu pdf o fap a gellir gwneud hyn mewn lliw.<br>▪ Gellir ychwanegu neu ddileu haenau'n ôl yr angen. | 100% | |
| | 4) | Parhau i ymchwilio i dechnoleg newydd | Gwaith parhaus | ▪ Gweler sylwadau cloi | 20% | ✓ |
| **Cam Gweithredu 2.4 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Mae TG wedi sicrhau bod mapiau HTC ar gael ar wefan y Cyngor drwy i-share, ond mae hyn yn rhan fawr o Gam Gweithredu 1.<br>▪ Pan fydd y MD wedi'i gwblhau a'i ail-gyhoeddi, bydd mapiau ar gael erbyn diwedd 2019.<br>▪ O ran technoleg newydd; caiff y gwaith hwn ei barhau a bydd yn dasg ar y CGHT newydd, wrth i dechnoleg newydd ddod ar gael. | | | | | | |
| **2.5** | **Nodi pyst marcio ffyrdd gyda chodau lliw a rhifau gan ddechrau â llwybrau â blaenoriaeth – *cyfeirnod 2.1.1*** | | | | | |
| | 1) | Nodi 10 llwybr â blaenoriaeth | Cwblhawyd, megis 2.1 | ▪ Cyf. 2.1. | 100% | |
| | 2) | Nodi post marcio ffordd â stensil | Heb ei wneud | ▪ Amryw drafodaethau ar yr hyn y dylid ei gynnwys, ond mae angen mwy o arweiniad. | 20% | ✓ |
| | 3) | Os bydd yn llwyddiannus, ei gyflwyno ar draws y rhwydwaith | Heb ei wneud | ▪ Gan nad yw 2) wedi'i gwneud nid oedd y dasg hon yn berthnasol | 0% | ✓ |
| **Cam Gweithredu 2.5 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Oherwydd tîm HTC llai a'r ffaith fod hon yn dasg fawr o ran amser staff a chost, nid oedd modd ei chyflawni.<br>▪ Bydd y dasg yn rhan o'r CGHT newydd. | | | | | | |
| **2.6** | **Sefydlu cyfres o deithiau tywys – *Gweler hefyd Gamau Gweithredu 2.1, 4 ac 8*** | | | | | |
| | 1) | Nodi teithiau cylchol gyda nodweddion tymhorol | Wedi'i gwblhau | ▪ Wrth greu'r teithiau cylchol, ychwanegwyd nodweddion a phwyntiau o ddiddordeb. Gweler 2.1 a 4 | 100% | |
| | 2) | Gyda AAC, nodi 4 'llwybr y tymor' a'u hyrwyddo | Heb ei wneud | ▪ Mae nodweddion tymhorol ar deithiau cerdded wedi'u cynnwys yn y taflenni ac ar fyrddau gwybodaeth ar y safle, ond ni hyrwyddwyd y wybodaeth hon fel 'llwybr y tymor'. | 0% | ✓ |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 3) | 2 staff HTC wedi'u hyfforddi i arwain teithiau cerdded | Cyfredol | ▪ Hyfforddwyd cydlynydd AAC y Tîm HTC fel Arweinydd Taith Gerdded. Roedd ei rôl yn cynnwys rheoli Cynllun **Cerdded Er Lles Iechyd (CELlI)** ac i arwain teithiau 2-3 gwaith y flwyddyn. | 60% | ✓ |
| | 4) | Sefydlu teithiau cerdded 'llwybr y tymor' | Heb ei wneud | | 0% | ✓ |
| | 5) | Chwilio am fwy o arweinwyr teithiau o'r gymuned | Gwaith parhaus, o ran CELlI | ▪ Ers ymuno â'r tîm HTC, mae Cydlynydd CELlI Caerdydd wedi darparu Hyfforddiant Arwain Teithiau. Ar gyfartaledd, mae 40 o Arweinwyr Cerdded hyfforddedig, gydag o leiaf un diwrnod Hyfforddiant Arweinydd Teithiau y flwyddyn. | 100% | |
| **Cam Gweithredu 2.6 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Arweiniwyd mwyafrif y teithiau cerdded gan Wirfoddolwyr o CELlI a Cheidwaid Parciau, fel rhan o'r rhaglen digwyddiadau flynyddol.<br>▪ Nid yw Cyngor Caerdydd bellach yn ariannu CELlI, ond fe'i rheolir gan Y Cerddwyr drwy eu cymorth gyda chyfleoedd hyrwyddo a hyfforddi.<br>▪ Wrth i'r wefan AAC gael ei diweddaru, caiff rhagor o wybodaeth am deithiau tymhorol ei hychwanegu. | | | | | | |
| **3.0** | **Cyhoeddusrwydd a hyrwyddo: Gwella ymwybyddiaeth o HTC** | | | | | |
| **3.1** | **Adolygu ac addasu'r wefan fel bod mwy o wybodaeth arni** | | | | | |
| | 1) | Adolygu dyluniad a chynnwys cyfredol | Cwblhawyd a pharhaus | ▪ Cafodd pob project ei gynnal dan frand a gwefan AAC ac fel rhan o'r fenter hon adolygwyd y cynnwys a'r dyluniad. | 80% | ✓ |
| | 2) | Drwy AAC, dechrau ymgynghori â'r Tîm Cyfathrebu | Cwblhawyd a pharhaus | ▪ Mae partneriaid AAC yn parhau i weithio'n agos gyda Chyfathrebu i gadw'r wefan mor gyfoes â phosibl. | 100% | |
| | 3) | Gyda'r tîm Cyfathrebu, ffurfio dyluniad ac addasu cynnwys | Wedi'i gwblhau | ▪ Yn 2016-2017, addasodd y Tîm Cyfathrebu wefan y Cyngor a olygai y bu'n rhaid i bob gwasanaeth ddiweddaru ei wybodaeth fel rhan o'r ail-ddylunio. Creodd Cyfathrebu ddyluniad newydd i wefan AAC. | 100% | |
| | 4) | Yn dibynnu ar gyllid (ac amser TCM) newid a dylunio cynnwys | Cwblhawyd drwy'r tîm HTC, heb gost pellach | ▪ Roedd yr ail-ddyluniad yn gyfle i adolygu'r holl gynnwys ar wefan y Cyngor a gwefan AAC i wneud y wybodaeth yn hawdd ei chanfod ac uwchlwytho ffotograffau newydd i greu gwefan fwy modern a hwyliog i ddenu mwy o ymwelwyr. | 100% | |
| | 5) | Adolygu dolen i wefan AAC | Wedi'i gwblhau | ▪ Mae gan wefan y Cyngor ddolenni uniongyrchol i wefan AAC. Cynhelir gwybodaeth Strategaeth a Pholisi ar wefan y Cyngor ac mae gweithgareddau awyr agored ar wefan AAC.<br>▪ Ystadegau Defnyddwyr i wefan AAC: 1 flwyddyn o 10/2016 – 10/2017; allan o 41,451 o olygfeydd tudalen, roedd 14,546 ymwelydd unigryw, 78.3% ohonynt yn ymwelwyr newydd. | 100% | |
| **Cam Gweithredu 3.1 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Gweler hefyd Dasgau 1.1, 1.2 a 2.4 | | | | | | |
| **3.2** | **Dechrau cynllun Sioe Deithiol Gymunedol** | | | | | |
| | 1) | Cysylltu â'r tîm AAC, casglu adnoddau | Cwblhawyd drwy Ganolfan Ymchwil Caerdydd (CYC) | ▪ Cynhaliwyd holiadur ymgynghori ar yr un adeg â'r sioeau teithiol i benderfynu ar sut mae pobl yn dysgu am Hawliau Tramwy Cyhoeddus, llwybrau a digwyddiadau yng Nghaerdydd.<br>▪ Cyhoeddwyd yr holiadur yn Llais Y Ddinas (Mai 05) a ddosbarthwyd i bob tŷ yng Nghaerdydd. | 100% | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2) | Cyflawni cyfres o Sioeau Teithiol Cymunedol gan ddefnyddio brand AAC | Wedi'i gwblhau: mynychu 5-10 digwyddiad y flwyddyn | ▪ Mynychodd staff HTC amrywiaeth o ddigwyddiadau, fel arfer ynghyd â'r timau Parciau a Chefn Gwlad e.e. Sioe'r RHS, canolfannau hamdden, digwyddiadau cymunedol a sioe deithiol yn seiliedig ar waith gan gynnwys Teithio Llesol tua 5-10 digwyddiad y flwyddyn | 100% | |
| **Cam Gweithredu 3.2 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Anfonwyd cyfanswm o 673 o holiaduron wedi'u cwblhau'n ôl at CYC, adroddwyd trosolwg a manylion y prif ganlyniadau yn y CGHT cyntaf (tudalennau 36-38). Cymherir hyn â chanlyniadau'r arolwg yn y CGHT drafft newydd. Helpodd y canlyniadau i lywio beth allai tasgau posibl CHGT 1 fod.<br>▪ Yn dilyn cyfres o weithdai, roedd tua 200 o drigolion Caerdydd yn rhan o grŵp ffocws i CGHT.<br>▪ Yn ogystal â'r ymgynghoriadau cyhoeddus, ymgynghorwyr â grwpiau, sefydliadau ac unigolion eraill, gan gynnwys Cynghorau Cymuned, y Cerddwyr, Cymdeithas Ceffylau Prydain, Ymgrych Feicio Caerdydd, Sefydliad y Deillion Caerdydd a Fforwm Ieuenctid Caerdydd a soniwyd amdanynt yn y CGHT cyntaf (tudalennau 37-40) | | | | | | |
| **3.3** | **Sefydlu 'corff rhanbarthol' ag ALl cyfagos** | | | | | |
| | 1) | Y tîm HTC i gysylltu â'r holl ALl cyfagos eraill i sefydlu Fforwm Mynediad Rhanbarthol | Fel rhan o GHTC a GRLlAC | ▪ Ni chrëwyd hyn yn ffurfiol, ond mae'r tîm HTC yn rhan o'r GHTC, y mae pob swyddog HTC yng Nghymru'n ei fynychu. Caiff materion allweddol eu codi a'u trafod; sydd wedi gwella perthnasau a chyswllt ag Awdurdodau cyfagos.<br>▪ Mae **Grŵp Rhanbarthol Llwybr Arfordir Cymru** (GRLlAC**)** yn cwrdd deirgwaith y flwyddyn ac yn cynnwys 2 o awdurdodau cyfagos Caerdydd. | 20% | ✓ |
| **Cam Gweithredu 3.3 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Er nas sefydlwyd i grŵp cyntaf CGHT, bydd yn y CGHT newydd fel ymgynghoriad ag ALl cyfagos i sicrhau cysylltiadau llwybrau trawsffiniol (3.3.2+3 x 20%). | | | | | | |
| **3.4** | **Sefydlu 'perthnasau cydweithredol' gyda busnesau a allai gael budd o ddefnyddio HTC** | | | | | |
| | 1) | Nodi 'partneriaid busnes' posibl ger HTC | Wedi'i gwblhau | ▪ Nodwyd lleoliadau allweddol ar draws y rhwydwaith HTC i gynnwys 18 llyfrgell a hyb cymunedol, 2 ganolfan dwristiaeth, Canolfan Addysg Parc Bute a dwy amgueddfa.<br>▪ Y busnesau â thaflenni ynddynt oedd: Creigiau Inn, Gwaelod-y-Garth Inn, Tynant Pub, Lewis Arms (Tongwynlais), Cardiff International Hotel (Coryton), Traveller's Rest (Draenen Pen-y-graig), Black Cock Pub, Caerffili. | 100% | |
| | 2) | Ymgynghoriad â busnesau'n fodlon cydweithio | Wedi'i gwblhau | ▪ Dangosodd taflenni wybodaeth amwynderau lleol ar y mapiau.<br>▪ Cytunodd rhai busnesau i ganiatáu i gerddwyr ddefnyddio eu cyfleusterau gan fod rhai o'r llwybrau yng nghefn gwlad, er enghraifft Gwaelod y Garth Inn, Lewis Arms (Tongwynlais). | 100% | |
| | 3) | Gydag Awyr Agored Caerdydd, dosbarthu deunydd hyrwyddol | Cwblhawyd a pharhaus | ▪ Dosbarthwyd taflenni yn ôl cais busnesau.<br>▪ Cafodd y wefan AAC gais ar-lein ar gyfer taflenni arbennig a'r nifer yr oedd ei angen. Er nad yw hyn ar gael mwyach, gall busnesau a'r cyhoedd ofyn i gopïau gael eu postio atynt drwy wefan AAC. Hefyd, gellir lawrlwytho taflenni llwybr o wefannau AAC a HTC. | 80% | ✓ |
| | 4) | Cyswllt pob 6 mis i weld nifer y rhai sy'n manteisio | Cwblhau rhestr wirio | ▪ Busnesau a chanolfannau lleol lle gosodwyd y taflenni'n cysylltu ag AAC i wneud cais am gyflenwad ychwanegol yn ôl yr angen. Cyflawnwyd rhestr offer a chadwyd cofnod yn penderfynu ar niferoedd a fanteisiodd arnynt, ac a gafodd daflenni, o blith y cyhoedd. Adolygir hyn bob blwyddyn. | 40% | ✓ |
| | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 3.4 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Pâr 4); oherwydd tîm HTC llai a'r ffaith fod hon yn dasg fawr o ran amser a staff, nid oedd yn ymarferol parhau â chyswllt rheolaidd. Pear Communications yn cynorthwyo â hyn yn ôl yr angen, ond yn dibynnu ar gyllid.<br>▪ Oherwydd diffyg lle storio yn swyddfeydd HTC, mae pob taflen bellach yn cael ei chadw yn Fferm y Fforest ac ar gyfer canolfannau hamdden a digwyddiadau'n bennaf.<br>▪ Bydd y dasg hon yn rhan o'r CGHT newydd, gan gynnwys adolygiad o leoliadau busnesau partner a hyrwyddo deunydd HTC ar-lein. | | | | | | |
| **4.0** | **Teithiau Cylchol: Creu teithiau cerdded cylchol ategol** | | | | | |
| **4.1** | **Nodi pwyntiau strategol ar gyfer teithiau cylchol a dechrau eu gweithredu – *gweler hefyd 2.1 a 2.6*** | | | | | |
| | 1) | Nodi ac ymweld â phob taith gylchol bosib, gan sicrhau ymarferoldeb | Wedi'i gwblhau; sefydlu 8 taith gylchol | ▪ Teithiau cylchol a nodwyd oedd – Garth, Y Wenallt, Sain Ffagan, Fforest Fawr (x3), Pentyrch hefyd Taith Gylchol Taith Taf (x10)<br>▪ Ymhlith y Llwybrau Cyfeiriadu a nodwyd roedd Gwaelod y Garth (cysylltiadau â thaith y Garth ac mewn partneriaeth â'r Clwb Eco'n yr ysgol gynradd leol) a Pharc y Mynydd Bychan.<br>▪ Taith Antur Bywyd Gwyllt wedi'i nodi gan gynnwys Ysbyty'r Waun a Pharc y Mynydd Bychan.<br>▪ Crëwyd ac argraffwyd pecyn 'Teithiau Cerdded Iach a Braf' (x8) mewn partneriaeth â CELlI a Phartneriaid ACC. | 100% | |
| | 2) | FfMLl i flaenoriaethu llwybrau (cysylltu ag AAC) | Wedi'i gwblhau | ▪ Llywiwyd y FfMLl drwy gydol y broses o nodi teithiau cylchol posibl.<br>▪ Tua 3 o ymweliadau safle'r flwyddyn a 4 digwyddiad agor (Y Wenallt, Sain Ffagan, Fforest Fawr a Phentyrch) wedi'u cynnal ar ôl i'r llwybrau cael eu cwblhau a'u gosod. | 100% | |
| | 3) | Gweithredu'n seiliedig ar flaenoriaeth. Nod i osod 2 daith gylchol y flwyddyn | Wedi'i gwblhau; diffyg cyllid a staff felly 1 y flwyddyn | ▪ Oherwydd diffyg ariannol a dim ond un swyddog i wneud y gwaith, adolygwyd y nod i osod un daith gylchol y flwyddyn<br>▪ Rhestrir y llwybrau yn 4.1.1); gweler dolen i Awyr Agored Caerdydd > Llwybrau | 80% | ✓ |
| **Cam Gweithredu 4.1 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Mae creu teithiau cylchol wedi gwella hygyrchedd (h.y. gwaredu camfeydd lle y bo'n bosibl neu osod camau ar raddfeydd serth) ac amodau arwyneb yr HTC a ddefnyddir a gweithio'n agosach gyda chynghorau cymuned/sefydliadau drwy gydol y broses wedi helpu i greu perthnasau gwaith cryfach. Gweler hefyd 2.1 a 2.6<br>▪ Roedd gan lwybrau a hyrwyddwyd arwyddion arbennig, byrddau gwybodaeth wedi'u gosod ar y safle a thaflenni i lawrlwytho/argraffu i annog mwy o ymweliadau â'r llwybrau gwell hyn. Gosodwyd cyfrifwyr pobl hefyd i weld a oedd mwy o bobl yn defnyddio'r llwybrau ers eu gwella (gweler hefyd 11.4) | | | | | | |
| **4.2** | **Gweithio gyda Cerdded Er Lles Iechyd (CELlI) o ran hyrwyddo teithiau cylchol** | | | | | |
| | 1) | Mae un o gynrychiolwyr CELlI yn rhan o Awyr Agored Caerdydd (AAC) | Wedi'i gwblhau | ▪ Cynhaliwyd cyfarfodydd partneriaeth Awyr Agored Caerdydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac roedd y swyddog project CELlI yn aelod o'r grŵp hwn.<br>▪ Crewyd swydd swyddog project drwy arian partneriaeth ar gyfer Dewch i Gerdded Cymru ac arian CGHT, i helpu i sefydlu projectau gyda mentrau trawsbwrpas o ran nodau iechyd a lles. | 100% | |

**Cam Gweithredu 4.2 – Sylwadau cloi:**

- Daethai swydd y swyddog project i ben, gan fod cyllid CELlI bellach yn cael ei reoli gan Y Cerddwyr ar lefel Cymru.
- Mae'r tîm HTC bellach yn rheoli gwefan AAC, rhoi diweddariadau i wefan Dewch i Gerdded Cymru a chefnogi'r grwpiau CEMLlI yng Nghaerdydd.
- Mae'r holl arweinwyr CELlI yn wirfoddolwyr.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **4.3** | **Sicrhau bod lleiniau glaswellt ar hyd y teithiau cerdded yn cael eu cynnal** | | | | | |
| | 1) | ACC i gysylltu â'r Gwasanaethau Parciau i sicrhau dilyniant gwaith cynnal a chadw | Cwblhawyd yn rhannol, gyda chymorth gan Briffyrdd a Pharciau | ▪ Mae'r gyfundrefn cynnal a chadw bresennol ar hyn o bryd yn seiliedig ar flaenoriaethau ac ymholiadau cwsmeriaid.<br>▪ Caiff rhannau ar hyd teithiau a hyrwyddir, pan fo llwybr cerdded ar lain laswellt, hefyd ar unrhyw lwybr cerdded wrth lain laswellt a/neu wrychoedd sy'n gordyfu, eu rheoli drwy raglen torri gwair dymhorol gan Briffyrdd a/neu Parciau. | 80% | ✓ |

**Cam Gweithredu 4.3 – Sylwadau cloi:**

- Priffyrdd a Pharciau'n dal i gynnal a chadw lleiniau ac arolygiadau misol llwybrau a hyrwyddir yn ystod y tymor torri gan Dîm Cynnal a Chadw HTC.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **4.4** | **Pwyslais ar deithiau cylchol yn ystod hyrwyddiad 'llwybr y tymor' – *gweler hefyd 2.1, 2.6 a 6.3*** | | | | | |
| | 1) | Nodi teithiau cylchol gyda nodweddion tymhorol | Wedi'i gwblhau | ▪ Mae nodweddion tymhorol ar deithiau cerdded wedi'u cynnwys yn y taflenni ac ar fyrddau gwybodaeth ar y safle, ond ni hyrwyddwyd y wybodaeth hon yn dymhorol. | 80% | ✓ |
| | 2) | Drwy AAC, sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r tîm Cyfathrebu | Cwblhawyd a pharhaus | ▪ Mae'r teithiau ar fap ar-lein y Cyngor ac fe'u hyrwyddir ar wefan AAC lle mae modd lawrlwytho neu argraffu mapiau a thaflenni. | 80% | ✓ |

**Cam Gweithredu 4.4 – Sylwadau cloi:**

- Mae'r teithiau hyn ar wefan AAC ac mae gan Parciau raglen Teithiau Tywys a Digwyddiadau sy'n cynnal cyfres o deithiau tywys/ gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn. Bydd y rhain yn cynnwys gweithgareddau tymhorol fel gweld yr eogiaid y neidio i fyny Afon Taf, teithiau i weld ystlumod gyda'r nos a theithiau adar.

| | |
|---|---|
| **5.0** | **Llwybr Arfordir Cymru: Sicrhau cyfranogiad a chwblhau tasgau** |

**Cam Gweithredu 5 – Sylwadau Cyffredinol**

Yn 2007, roedd gan **Lywodraeth Cymru (LlC)** fenter i greu Llwybr Arfordir Cymru (**LlAC**) o gylch Cymru benbaladr. I gynorthwyo'r 16 ALl i wneud hyn roedd grant project LlAC ar wahân, a ddyrannwyd drwy CCGC (CNC bellach). Yng Nghaerdydd, roedd y grant yn cynnwys penodi **Swyddog Mynediad Arfordirol (SMA)** yn Hydref 2007, i ddelio'n benodol â phrojectau a gwaith arall oedd angen ei wneud i greu llwybr ymarferol yng Nghaerdydd, yn cysylltu â Chasnewydd i'r dwyrain a Bro Morgannwg i'r gorllewin. Oherwydd yr arian grant ar wahân, nododd y meini prawf na ellid defnyddio arian CGHT i broject LlAC, felly ni chynlluniwyd tasgau yn y CGHT cyntaf. Ond mae LlAC bellach yn rhan o'r rhwydwaith HTC a dylid rhoi sylwadau arno fel rhan o'r rhwydwaith hwnnw.

**Pwyntiau i'w nodi'n cynnwys:**

- FfMLl wedi cynorthwyo'r SMA yn fawr wrth ddod o hyd i lwybr ymarferol, yr oedd yn rhaid ei gyflwyno i CCGC erbyn Tach 2007.
- Y project mawr cyntaf yn 2008 oedd gosod cyswllt pont ar Forglawdd Bae Caerdydd i alluogi pobl i gerdded yn ôl ac ymlaen o Benarth i Fae Caerdydd. Cyfrifodd y cyfrifwyr pobl 160,000 o ddefnyddwyr yn y 12 mis cyntaf, gyda nifer cyffredinol yr ymwelwyr â'r Morglawdd yn cynyddu gan nifer tebyg.
- Crëwyd 2 HTC newydd; Trowbridge 1 ar hyd y mur morol (dan Adran 26 Deddf Priffyrdd 1980) a Sblot 1 ar hyd glan orllewinol Afon Rhymni (dan adran 26 Deddf Priffyrdd 1980, gyda dyraniad tir ym meddiant Dŵr Cymru), yn ychwanegol 5.1km ychwanegol i'r rhwydwaith HTC.

- Mae'r LlAC yn fras tua 15km/9.3 milltir ac mae'n rhan o ranbarth Arfordir De Cymru ac Aber Afon Hafren. Mae LlAC o'r Gogledd i'r De-ddwyrain tua 1,400km/870 milltir.
- Cafwyd arian grant i Gaerdydd gwerth £421,629 hyd at ddiwedd y project yn 2013 a £29,077 i fis Mawrth 2018
- Oherwydd yr amryw fesurau gwarchod bioamrywiaeth yn Aber Afon Hafren roedd angen cynnal Asesiadau Priodol i Gaerdydd, hefyd ar y cyd â chynghorau Casnewydd a Sir Fynwy i ystyried effaith y llwybr. Yn dilyn hyn, roedd gwaith llawr yn destun cyfyngiadau tymhorol.
- Oherwydd cyfyngiadau o fewn phorthladdoedd ABP, rhaid i ran o'r llwybr fynd i'r mewndir, ond mae hyn yn rhoi mynediad i gaffis, siopau, llety ac ati Caerdydd.
- Gosodwyd cyfrifwyr pobl a'u monitro ar 5 pwynt ar hyd y llwybr.
- Agorwyd LlAC yn swyddogol ar 5 Mai 2012, gyda 3 agoriad Cenedlaethol gan gynnwys un yng Nghaerdydd.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **6.0** | **Hygyrchedd HD: Sicrhau bod llwybrau realistig a rhesymol i ddefnyddwyr HTC anabl a chyda namau** | | | | | |
| **6.1** | **Sefydlu Grŵp Ffocws Mynediad i Bawb at Gefn Gwlad (RAFA) a nodi tasgau allweddol i'w cyflawni** | | | | | |
| | 1) | Nodi pobl â buddiant yn y materion hyn | Wedi'i gwblhau ond diddymwyd y grŵp RAFA yn Chwe 2010 | ▪ Cysylltwyd â'r rhai â buddiant yn hygyrchedd y llwybr a sefydlwyd y grŵp **Mynediad i Bawb at Gefn Gwlad (RAFA)** ym Mehefin 2006 i helpu gyda'r broses CGHT. | 80% | ✓ |
| | 2) | Sefydlu tasgau i'r dyfodol a diffinio cyfrifoldebau'r grŵp | Cwblhawyd yn Sylweddol | ▪ Cwblhawyd hyn fel un o brojectau'r Swyddog CGHT 1af, a reolodd y grŵp ynghyd ag aelod o'r grŵp sef Dr Rob Gravelle (Cydraddoldeb)<br>▪ Rhedodd y grŵp tan Chwe 2010. | 80% | ✓ |
| | 3) | Nodi cyfres o dasgau y gellid eu gwneud | Wedi'i gwblhau | ▪ Cynhaliwyd cyfres o ymgynghoriadau safle gan gynnwys Teithiau Cylchol Taf (gyda disgrifiad o'r llwybr), Llwybr Elái, Project Cod Ymddygiad Parc Hailey a Theithiau Iach a Braf. | 100% | |
| | 4) | Nodi ffynonellau ariannu | Wedi dechrau | ▪ Ariannwyd hyn yn wreiddiol drwy grant CGHT (ni chyrchwyd arian ychwanegol). | 20% | ✓ |
| | 5) | Cyflawni tasgau fel ag y mae arian yn caniatáu | Cwblhawyd yn Sylweddol | ▪ Cynhaliodd y grŵp RAFA asesiadau ar lwybrau a nodir. | 80% | ✓ |
| | 6) | RAFA i adolygu, yna nodir tasgau i'r dyfodol | Wedi dechrau | ▪ Diddymwyd grŵp RAFA yn Chwe 2010. | 40% | ✓ |

**Cam Gweithredu 6.1 – Sylwadau cloi:**

- Rhedodd RAFA tan Chwe 2010 gan gynnwys Swyddog Cydraddoldeb Cyngor Caerdydd.
- Sefydlwyd **Grŵp Ffocws Mynediad Cyngor Caerdydd (GFfMCC)** gan y Swyddog Cydraddoldeb a thra bod y grŵp yn ystyried materion hygyrch, ni chodwyd HTC. Fodd bynnag, maen nhw wedi cytuno i fod yn rhan o ymgynghoriad i'r ROWIP newydd ac mae 2 aelod yn rhan o'r Is-grŵp CGHT newydd i roi adborth mwy uniongyrchol.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **6.2** | **Pwyslais ar bolisi i ddisodli camfeydd â gatiau neu fylchau** | | | | | |
| | 1) | Hysbysebu ar AAC a chyhoeddiadau perthnasol eraill | Cyfredol | ▪ Nodwyd nifer o gamfeydd i'w hystyried i'w gwaredu i adael blwch neu osod gatiau pan fo angen rheoli stoc.<br>▪ Gweler 6.1 5) o ran Cymorth aelodau RAFA<br>▪ Ni chyhoeddwyd y gwaith hwn ar AAC, ond mae'r Tîm HTC wedi gweithio'n agos gyda Chynghorau Cymuned, sefydliadau a chysylltu ag aelodau'r cyhoedd i nodi lle y dylid ystyried gwneud gwelliannau. | 40% | ✓ |
| | 2) | Gosod camfeydd newydd hynny â phosibl ar y rhwydwaith | Cwblhawyd yn Sylweddol | ▪ Gwaredwyd camfeydd yn ôl disgresiwn y Prif Swyddog lle y'u hystyriwyd yn beryglus ac ardaloedd lle mae cytundeb â'r tirfeddiannwr. | 80% | ✓ |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ▪ Ar gyfartaledd, caiff 6-8 camfa eu newid gan gatiau moch bob blwyddyn fel rhan o'r rhaglen cynnal a chadw dros y gaeaf. Gosodwyd tua pum gât hunan-gau newydd ar draws y rhwydwaith ar ffyrdd ceffylau neu le nad oes risg o stoc yn dianc i ffordd. Gosodwyd dwy gât 2-mewn-1 i gynnal mynediad i gerbydau i'r tirfeddiannwr â mynediad i gerddwyr. | | |
| **Cam Gweithredu 6.2 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Mae hyn dal yn flaenoriaeth er mwyn gwella 'mynediad i bawb' ar draws y rhwydwaith llwybrau.<br>▪ Mae tua 50 camfa ar ymyl y ffordd a 10 camfa i ffwrdd o'r ffordd y dylid eu cyfnewid am gatiau. | | | | | | |
| **6.3** | **Gwneud pecyn cyflwyno i gynorthwyo'r sawl ag anabledd neu nam i allu defnyddio'r rhwydwaith HTC** | | | | | |
| | 1) | Gweler 'arfer gorau' gan becynnau tebyg ALl eraill | Wedi'i gwblhau | ▪ Mynychwyd cwrs Hyfforddiant Cenedlaethol ar Fynediad a dehongli llwybrau, ynghyd ag ALl arall i gynorthwyo wrth gynllunio at faterion mynediad llai cyfyngol. | 100% | |
| | 2) | Cyflwyno RAFA ag enghreifftiau, ystyried cryfderau a gwendidau | Wedi'i gwblhau | ▪ Gwnaed ar y cyd wrth greu teithiau cylchol (Tasg Blaenoriaeth 4).<br>▪ Roedd hwn yn broject partneriaeth â'r Tîm Cefn Gwlad, Parciau, CELlI a RAFA. | 100% | |
| | 3) | Gydag aelodau RAFA, cytuno ar gynnwys i becyn Caerdydd | Wedi'i gwblhau | ▪ Crëwyd 2 becyn '[Teithiau Cylchol Taith Taf' a'r 'Pecyn Teithiau Iach a Braf]'<br>▪ Roedd gan y pecynnau wybodaeth gan gynnwys 10 Rhesymau i Gerdded a chael Mynediad i Bawb.<br>▪ Rhoddwyd gwybodaeth allweddol am gyflwr arwynebau, unrhyw rwystrau (camau, gatiau) ynghyd â gwybodaeth am gyfleusterau a pharcio. | 100% | |
| | 4) | Gyda'r tîm Cyfathrebu, penderfynu ar ymarferoldeb llunio'r pecynnau | Wedi'i gwblhau | ▪ Gwnaed drwy bartneriaid AAC<br>▪ Pecynnau wedi'u creu a'u llunio gan y tîm Cefn Gwlad | 100% | |
| | 5) | Defnyddio brand AAC, llunio'r pecyn | Wedi'i gwblhau | ▪ Crëwyd pecyn Taith Taf fel bod pob taith gerdded unigol yn arwain i'r cerdyn nesaf. Golygai hyn y gallai taith gerdded iechyd fer gysylltu â dau neu fwy o gardiau i greu taith hirach, yn dibynnu ar allu'r unigolyn. Maen nhw'n cynnwys gwybodaeth destun am ddodrefn (gan gynnwys camau, gatiau) a phwyntiau o ddiddordeb. | 100% | |
| | 6) | Gydag AAC, sicrhau y caiff pecynnau eu dosbarthu | Wedi'i gwblhau | ▪ Dosbarthwyd y pecynnau ynghyd â'r taflenni eraill fel rhan o Dasg 3.<br>▪ Mae copïau caled o'r pecynnau hyn yn y Canolfannau Croeso a Chanolfan Addysg Parc Bute. | 100% | |
| **Cam Gweithredu 6.3 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Roedd hon yn dasg gadarnhaol ac roedd y pecynnau'n boblogaidd, cafodd tua 100 pecyn eu dosbarthu'n ystod y flwyddyn. Ar hyn o bryd, dosberthir pecynnau i'r cyhoedd ac i ganolfannau cymunedol/swyddfeydd twristiaeth ar gais. | | | | | | |
| **6.4** | **Defnyddio iaith ddisgrifiadol i alluogi pobl i benderfynu ar addasrwydd llwybr eu hunain (gweler 6.3)** | | | | | |
| | 1) | Gweler 'arfer gorau' ALl eraill gyda geiriad tebyg | Wedi'i gwblhau | ▪ Gwnaed ar yr un adeg â 6.3.1) | 100% | |
| | 2) | Cyflwyno RAFA ac AAC â'r enghreifftiau hyn | Wedi'i gwblhau | ▪ Gwnaed fel rhan o 6.3.2) | 100% | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 3) | Gyda RAFA ac AAC, penderfynu ar y ffordd orau o ddisgrifio amodau HTC. I 'lwybrau â blaenoriaeth' i ddechrau | Wedi'i gwblhau | ▪ Mae'r wybodaeth yn y taflenni'n galluogi'r unigolyn i benderfynu ar addasrwydd yn hytrach na thrwy labelu llwybr yn hawdd/canolig/anodd. Gweler 6.3.3)<br>▪ **Mater:** Nid yw'r wybodaeth am deithiau cylchol a hyrwyddir ond yn rhoi gwybodaeth gyffredinol fel tir, pellter, cyfleusterau, parcio. | 80% | ✓ |
| | 4) | Gyda'r tîm cyfathrebu, sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn helaeth ac ar wefan AAC | Wedi'i gwblhau | ▪ Pob taith ar wefan AAC<br>▪ Wrth ail-ddylunio'r wefan, bydd angen i rai taflenni dal gael eu huwchlwytho i'r wefan. | 40% | ✓ |

**Cam Gweithredu 6.4 – Sylwadau cloi:**

- Cwmpaswyd y tasgau hyn i raddau helaeth yng Ngham Gweithredu 6.3
- Nid yw'r amryw daflenni cerdded na'r wefan ar hyn o bryd yn nodi union leoliadau rhwystrau, fodd bynnag mae teithiau cylchol Taith Taf yn disgrifio'r llwybr e.e. grisiau a serthni. Yn y dyfodol, wrth i daflenni gael eu hadolygu neu eu diweddaru, dylai hyn gael ei gynnwys i helpu'r cyhoedd i gynllunio eu llwybrau. Gellir ychwanegu rhwystrau ar fap ar-lein i-share y Cyngor i'r rhwydwaith a chaiff hyn ei ystyried yn dasg bosibl yn y ROWIP newydd.
- Diwygiwyd y taflenni'n ddiweddar ac maen nhw ar gael ar wefan Awyr Agored Caerdydd. Nid ydynt wedi'u hail-argraffu oherwydd costau a dulliau amgen o hysbysebu ac ystyrir hyrwyddo'r llwybrau drwy apiau symudol a darparu fformatau argraffedig mewn lleoliadau dynodedig ledled y ddinas.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **7.0** | **Cynnal a Gorfodi: Gwneud gweithdrefnau rheoli ffurfiol ac effeithlon** | | | | | |
| **7.1** | **Llunio strategaeth gweithredu cynnal a chadw a gorfodi** | | | | | |
| | 1) | Nodi categorïau llwybr yr hierarchaeth HTC | Wedi'i gwblhau | ▪ Creu a hyrwyddo 'Adrodd Problem' ar-lein drwy borthol **Arbenigwr Rheoli Asedau Priffordd (AMX),** a ddengys bod materion ailadroddus ac asesu blaenoriaeth llwybrau.<br>▪ Caiff pob llwybr HTC ei flaenoriaeth drwy dorri'r gyfundrefn a'r lefel o gynnal a chadw sydd ei angen i gadw'r llwybr ar agor ac yn hygyrch i ddefnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys materion ag arwyddion.<br>▪ Nid yw categoreiddio llwybr fel 'blaenoriaeth isel' o reidrwydd yn golygu nas defnyddir yn dda ond gallai fod angen ei gynnal a'i gadw fymryn. Caiff categorïau pellach eu hychwanegu i raglen cynnal a chadw AMX. | 100% | |
| | 2) | Archwilio cael y system fapio **System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad (CAMS)** | Wedi'i gwblhau | ▪ Gosodwyd y System CAMS (a ddefnyddir gan y rhan fwyaf o ALl) ac fe'i defnyddiwyd bob dydd i'r CGHT cyntaf ond mae rhaglen AMX bellach yn cael ei defnyddio (gweler 1 uchod) nad yw'n cyweddu CAMS, felly roedd yn rhaid mapio HTC â rhaglen AMX. Hefyd, roedd CAMS yn gostus i'w chynnal a dim ond y tîm HTC a'i defnyddiodd; ni allai chydweithwyr eraill ei defnyddio. | 100% | |
| | 3) | Llunio strategaeth cynnal a chadw arfaethedig yn unol ag egwyddorion Rheoli Asedau | Cyfredol | ▪ Ar hyn o bryd mae'r tîm HTC yn arolygu pob llwybr i'r rhaglen AMX.<br>▪ Gwnaed arolygon rheolaidd i reoli achosion o Chwyn Ymledol (e.e. Llysiau'r Dial, Ffromlys Chwarennog) a lle y'u nodwyd, fe'u triniwyd bob blwyddyn gan gontractwr. Bydd hyn yn dasg statudol barhaus. | 80% | ✓ |
| | 4) | Gweithredu'r polisi | Cyfredol | ▪ Tîm Cynnal a Chadw HTC i gofnodi'r gwaith dyddiol a wneir. | 80% | ✓ |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 5) | Parhau i ymgynghori ag AAC a grwpiau defnyddwyr eraill | Cyfredol | ▪ Cysylltodd y tîm HTC gyda Chynghorau Cymunedol i benderfynu a yw'r llwybrau blaenoriaeth yr hyn a ystyrir ganddynt yn flaenoriaeth, neu a oedd angen gwneud unrhyw newidiadau.<br>▪ Yn hanesyddol, mae'r tîm HTC yn torri'n ôl ac yn cynnal a chadw llwybrau'n unol â'u dealltwriaeth o le mae problemau, neu os yw'r cyhoedd yn adrodd/gofyn am weithredu, ond efallai bod angen cynnwys eraill. | 80% | ✓ |
| **Cam Gweithredu 7.1 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Roedd defnyddio system CAMS i ddechrau'n ddefnyddio i'r tîm HTC er mwyn cofnodi, monitro a chynllunio gwaith cynnal a chadw, fodd bynnag nid oedd yn fodd defnyddiol i'r cyhoedd roi gwybod am broblemau. Mae defnyddio'r rhaglen AMX wedi datrys hyn a gall y cyhoedd bellach 'Adrodd Problem' gydag unrhyw HTC ar-lein ac mae'r tîm HTC bellach yn defnyddio mapio AMX.<br>▪ Mae grwpiau fel FfMLl, Cerdded Er Lles Iechyd a chysylltiadau AAC wedi bod yn ddefnyddiol wrth nodi materion cynnal a chadw allweddol ond mae angen cysylltu ymhellach â Chynghorau Cymuned a fydd yn gallu rhoi gwybod i'r tîm HTC am unrhyw lwybrau â blaenoriaeth hysbys yn eu hardaloedd sydd angen sylw a fydd yn cynorthwyo â chynllunio gwaith cynnal a chadw. | | | | | | |
| **7.2** | **Sicrhau bod gweithdrefnau cynnal a chadw a gorfodi'n cael eu cyfleu i Reolwyr Gweithredol (RhG), Prif Swyddogion (PS) a'r Aelodau Gweithredol (AG)** | | | | | |
| | 1) | Sicrhau bod RhG, CO ac AG yn cael gwybod am faterion cynnal a chadw a gorfodi | Parhaus fel rhan o'r rôl HTC | ▪ Yn dibynnu ar yr achos, rhoddir gwybodaeth i reolwyr i sicrhau eu bod yn deall y gweithdrefnau a chyfrifoldeb y Cyngor.<br>▪ Mewn achosion penodol rhoddodd y tîm HTC friffiau a chanllawiau cyfeirio i reolwyr. | 80% | ✓ |
| **Cam Gweithredu 7.2 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Caiff rheolwyr wybod am broblemau mawr neu os oes angen iddynt ymyrryd.<br>▪ Mae llythyrau gorfodi yn cael eu hanfon, ac mae cyfeiriad at y canllaw HTC ar y wefan.<br>▪ Gan fod hyn yn rhan o rôl HTC ac yn waith bob dydd, nid oes angen ei gynnwys wedi tasg yn y GGHT newydd. | | | | | | |
| **7.3** | **Creu methodoleg yn defnyddio gweithdrefnau 'Sicrwydd Ansawdd' (SA) i sicrhau'r defnydd o brotocol gorfodi** | | | | | |
| | 1) | Adolygu gweithdrefnau gorfodi presennol â 'chyfraith gwlad'. | Wedi'i gwblhau | ▪ Ystyriodd HTC amryw sefyllfaoedd gorfodi sy'n ail-ddigwydd ar draws y rhwydwaith. Ymhlith y mathau o orfodi mae; rhwystro gan gnydau (aredig/amgáu), rhwystrau ffisegol (gât wedi'i chau, deunyddiau ac ati). a llystyfiant yn amgáu (gwrychoedd/coed). | 100% | |
| | 2) | Edrych ar 'arfer gorau' gan Gyngor Caerdydd ac ALlau eraill | Wedi'i gwblhau | ▪ Ymgynghorwyd â Swyddog HTC yn y grŵp WROWWG i ddysgu beth mae ALlau eraill yn eu defnyddio yn eu meysydd.<br>▪ Cysylltodd Swyddogion HTC â'r adran Gyfreithiol i greu cyfres o dempledi llythyr ar gyfer y materion gorfodi a amlinellir yn 7.3.1. | 100% | |
| | 3) | Ffurfio proses yn system S/A y Cyngor a'i gweithredu | Wedi'i gwblhau | ▪ Crëwyd proses ymgynghori gyda'r adran gyfreithiol yn creu cyfres o dempledi llythyr.<br>▪ Mae cyfres o gyfnodau allweddol ac amserlenni i'r llythyrau o ran pryd mae angen eu gweithredu.<br>▪ Mae gwefan HTC yn egluro cyfrifoldebau'r cyhoedd, tirfeddianwyr a'r Cyngor. | 100% | |
| **Cam Gweithredu 7.3 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Canllawiau ar gael ac yn cael eu diweddaru'n ôl yr angen ar dudalennau gwe HTC. | | | | | | |
| | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 8.0 | **Diogelwch: Rheoli pryderon diogelwch posibl** | | | | | |
| **8.1** | **Dechrau cyfres o 'deithiau tywys' i'w cynnal bob chwarter er mwyn profi 'diogelwch mewn niferoedd' – *gweler hefyd 2.6 a 4*** | | | | | |
| | 1) | Nodi teithiau cylchol gyda nodweddion tymhorol | Wedi'i gwblhau | ▪ Cysylltiedig â theithiau cylchol Tasg 4.<br>▪ Roedd gan deithiau penodol safleoedd o ddiddordeb | 100% | |
| | 2) | Gydag AAC, dewis 4 taith | Anghyflawn | ▪ Ni hyrwyddwyd diogelwch yn benodol. | 20% | ✓ |
| | 3) | Staff HTC wedi'u hyfforddi i arwain teithiau cerdded | Cwblhawyd yn Sylweddol | ▪ CELlI ac AAC wedi creu swydd cydlynu a gydariennir Roedd y Cydlynydd yn arweinydd teithiau ond roedd hefyd yn gallu hyfforddi arweinwyr newydd.<br>▪ Cynhaliwyd cyd-deithiau y gallai grwpiau CELlI ac aelodau'r cyhoedd ddod arnynt. | 80% | ✓ |
| | 4) | Sefydlu teithiau cerdded 'llwybr y tymor' | Anghyflawn | ▪ Ni hyrwyddwyd hyn fel 'llwybr y tymor' ond roedd teithiau tywys wythnosol drwy CELlA a Theithiau Tywys a Digwyddiadau Parciau rheolaidd i'r cyhoedd. | 80% | ✓ |
| | 5) | Gweld mwy o arweinwyr cerdded | Gwaith parhaus, o ran CELlI | ▪ Gwneir drwy CELlI | 80% | ✓ |
| **Cam Gweithredu 8.1 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Gweler hefyd dasgau 2.6 a thasg â blaenoriaeth 4<br>▪ Drwy hyrwyddo teithiau tywys a llwybrau cylchol, mae defnydd o lwybrau wedi cynyddu. Gweler hefyd cyfrifydd ymwelwyr ar dasg 11.4 | | | | | | |
| **8.2** | **Y tîm cynnal a chadw i sicrhau gwelededd dda lle bynnag y bo'n bosibl (Gweler tasg â blaenoriaeth 7)** | | | | | |
| | 1) | Gwneir gwaith cynnal a chadw'n unol â strategaeth sefydledig (gweler 7) | Cyfredol | ▪ Mae hyn yn rhan o waith y tîm cynnal a chadw i gadw llwybrau'n agored a thorri'n ôl i alluogi golau i ddod drwodd a lleihau ardaloedd tywyll.<br>▪ Mae hyn hefyd yn rhan o'r Canllawiau Cynllunio Strategol i ddylunio datblygiadau newydd â llwybrau agored golau yn hytrach na lonydd cefn tywyll. | 80% | ✓ |
| **Cam Gweithredu 8.2 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Gweler tasg â Blaenoriaeth 7.<br>▪ Dylai datblygiadau newydd gydymffurfio â Chanllawiau Cynllunio Strategol i leihau perygl i'r cyhoedd. | | | | | | |
| **8.3** | **Cysylltu â Chynghorau Cymuned i gael y newyddion lleol diweddaraf – *gweler hefyd 7.1.5)*** | | | | | |
| | 1) | Cysylltu ag ysgrifenyddion Cynghorau Cymuned i benderfynu ar ddiddordeb | Cyfredol | ▪ Mae'r tîm HTC yn gweithio'n agos gyda rhai cynghorau cymuned fel Llys-faen, Radur a Phentre-Poeth a Phentyrch.<br>▪ Mae hefyd gynghorau cymunedol eraill lle mae angen adeiladu perthnasau ymhellach. | 80% | ✓ |
| | 2) | Aelod o'r tîm HTC i fynychu cyfarfodydd Cyngor Cymuned | Cyfredol | ▪ Wedi'i gwblhau a mynychir cyfarfodydd ar gais. | 80% | ✓ |
| **Cam Gweithredu 8.3 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Mae'r tîm HTC wedi sefydlu perthnasau â'r rhan fwyaf o Gynghorau Cymuned Caerdydd, ond bydd cysylltu â phob Cyngor Cymuned yn dasg i'r CGHT newydd. | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **9.0** | **Beicio: Ymestyn y rhwydwaith o lwybrau beicio a gosod arwyddion** | | | | | |
| **9.1** | **Ystyried mesurau i ymestyn rhwydwaith y llwybrau beicio** | | | | | ✓ |
| | **Cam Gweithredu 9.1 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Mae hyn yn cynnwys cysylltu â'r **Tîm Polisi Trafnidiaeth (TPT)** sydd wedi creu Llwybrau Strategol sy'n cysylltu â HTC gan hefyd gysylltu â'r Map Rhwydwaith Integredig a'r CDLl i greu rhwydwaith cydlynol (4 tasg x 40%)<br>▪ I'r CGHT newydd, bydd angen i'r tîm wneud yn siŵr nad yw dyheadau'n y dyfodol yn gwrthdaro â TPT ond yn ei ategu. | | | | | |
| **9.2** | **Ystyried mesurau i ymestyn rhwydwaith y llwybrau beicio** | | | | | |
| | 1) | Arolygu arwyddion presennol Taith Taf | Wedi'i gwblhau | ▪ Aeth Swyddog HTC i gyfarfodydd rhanbarthol â'r ALl ar hyd Taith Taf a arolygodd eu hadrannau perthnasol. | 100% | |
| | 2) | Cysylltu â grŵp defnyddwyr perthnasol a phartneriaid ALl | Wedi'i gwblhau | ▪ Gweler uchod a 2.1 | 100% | |
| | 3) | Edrychwch ar 'arfer gorau' gan gyrff ALl/twristiaeth eraill | Wedi'i gwblhau | ▪ Gweler uchod a 2.1 | 100% | |
| | 4) | Gweithredu cam wrth gam | Cyfredol | ▪ Gweler uchod a 2.1 a 13.2 (Cod Ymarfer ar lwybrau a rennir) | 100% | |
| | **Cam Gweithredu 9.2 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Mynychodd y Swyddog HTC gyfarfodydd ALl eraill am Daith Taf ac fel grŵp a sicrhaodd fod yr arwyddion a'r marciau ar hyd y llwybr yr un peth. Er i'r grŵp gael ei ddiddymu yn 2013, caiff grŵp tebyg ei adsefydlu i ategu dyheadau TPT.<br>▪ Mae Sustrans bellach yn cynnal arwyddion ac yn llunio taflenni gwybodaeth Taith Taf. | | | | | |
| **9.3** | **Gwaredu rhwystrau beiciau modur lle y bo'n briodol** | | | | | |
| | 1) | Lleoliad arolwg rhwystrau beiciau modur | Anghyflawn | ▪ Cwblhawyd arolwg Taith Taf (ds nid ar y rhwydwaith HTC) gan y tîm HTC a Pharciau; rhoddwyd argymhellion i TPT i'w rhoi ar waith | 20% | |
| | 2) | Cysylltu â grwpiau defnyddwyr perthnasol | Anghyflawn | ▪ Heb ei wneud | 0% | |
| | 3) | Cysylltu ag AAC a'r Swyddog Beicio | Cwblhawyd yn rhannol | ▪ Gweler 1)<br>▪ Cyrchodd y Swyddog Beicio gyllid i waredu rhwystrau a gwella mynediad drwy grant Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA) ar gyfer gwelliannau llwybrau craidd. | 20% | |
| | 4) | Cysylltu â'r Heddlu lleol ac aelodau Ward | Anghyflawn | ▪ Arweiniodd TPT ar y project a chysylltodd ag Aelodau Ward a'r Heddlu; Parciau yw'r tirfeddiannwr ac yn y pen draw eu penderfyniad nhw oedd gwaredu/cadw, yn dibynnu ar faterion a oedd yn hysbys. | 20% | |
| | 5) | Gwaredu'n raddol | Cwblhawyd yn rhannol | ▪ Dim ond un rhwystr i feiciau modur a gafodd ei waredu ac argymhellodd yr arolwg taw mwyafrif y materion ar Daith Taf oedd arwyddion, cyflwr arwynebau a llystyfiant yn amgáu. | 20% | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 9.3 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Yn dilyn cymeradwyaeth gan yr adran Parciau, cafodd rhwystrau eu symud gan TPT ar gamau cynnar y CGHT cyntaf.<br>▪ Mae Sustrans wedi cynnal asesiad ac ymgynghoriad o Daith Taf ynghyd; roedd hyn yn cynnwys gwrthdaro rhwng defnyddwyr sy'n rhannu'r llwybr, ac yna gwnaed cynigion amrywiol i'w gweithredu yn y dyfodol.<br>▪ Mae'r adran TPT ac Parciau yn delio â rhwystrau ym mholisi Parciau a Mannau Agored Caerdydd. | | | | | | |
| **9.4** | **Sicrhau sianelu cyfathrebu â Swyddog Beicio'r Cyngor** | | | | | |
| | 1) | Swyddog HTC i fynychu cyfarfodydd **Cyswllt Datblygu Beicio (CDB)** | Cwblhawyd yn wreiddiol, angen cynllunio | ▪ Cafodd y grŵp hwn ei ddiddymu dros y blynyddoedd diwethaf ond mae Trafnidiaeth yn ystyried ei adsefydlu. | 60% | |
| | 2) | Cyfarfodydd AAC i gynnwys materion beicio | Cwblhawyd yn wreiddiol | ▪ Mynychodd y Swyddog Beicio'n achlysurol, ond gwnaethai'r partneriaeth AAC ddim cwrdd yn rheolaidd yn yr un modd oherwydd diffyg aelodau staff ac amserlenni. | 80% | |
| **Cam Gweithredu 9.4 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Diddymodd y grŵp CDB yn 2014 ond mae TPT yn ystyried ei adsefydlu'n Hydref 2018<br>▪ Mae'r bartneriaeth AAC wedi aros yn weithredol. | | | | | | |
| **10.0** | **Llwybrau Ceffyl: Cynyddu nifer y llwybrau hawdd eu defnyddio i farchogion** | | | | | |
| **10.1** | **Ystyried 'man poeth' i geffylau Pentyrch yn broject peilot, trafod a'r Cyngor Cymuned. Penderfynu ar faterion sy'n gwrthdaro** | | | | | |
| | 1) | Cysylltu â Chyngor Cymuned Pentyrch. Sefydlu partneriaeth gweithio, ymgynghori â'r gymuned leol | Anghyflawn | ▪ Cysylltwyd â **Cymdeithas Ceffylau Brydeinig (BHS)** a CC Pentyrch ar sail ad hoc, ond ni chymerwyd camau gweithredu clir. Fodd bynnag, gwnaed gwaith perthnasol ar 'lonydd gwyrdd' (gweler 10.2) sy'n berthnasol i'r cam gweithredu hwn. | 40% | ✓ |
| | 2) | Cyflawni trafodaethau angenrheidiol â thirfeddianwyr | Ddim yn ymarferol | ▪ Canllawiau gyda BHS ar gyfer llwybrau a ganiateir.<br>▪ Diffyg iawndal ar gael a arweiniodd at wneud hyn yn anymarferol. | 20% | ✓ |
| **Cam Gweithredu 10.1 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Mae llwybr a ganiateir yn cael ei greu o amgylch Llynnoedd Canada (Pentyrch) i greu llwybr cylchol i geffylau ac yn mynd â marchogwyr oddi ar ffyrdd prysur. Gohiriwyd hyn oherwydd y broses gyfreithiol o gytuno ar y contract gan y Cyngor a'r tirfeddiannwr, hefyd ariannu adnoddau.<br>▪ O ran tasgau 2, 3 a 4 ar y CGHT cyntaf; dechreuodd BHS y tasgau hyn fel rhan o'u strategaeth cynllunio yn y dyfodol. Ni wnaed hyn gan HTC i osgoi dyblygu tasgau. Roedd cyllid hefyd yn broblem i'r tîm HTC. | | | | | | |
| **10.2** | **Ystyried y posibiliad o ddefnyddio 'lonydd gwyrdd' at ddibenion marchogaeth** | | | | | |
| | 1) | Nodi lleoliad pob lôn werdd | Anghyflawn | • Cofrestrir y lonydd gwyrdd fel priffordd fabwysiedig ac maen nhw'n hen ffyrdd y porthmyn sydd wedi'u gordyfu a rhigoli. Mae rhai lonydd yn fwy hygyrch nag eraill, ond os gwellir addysg, bydd y llwybrau hyn yn creu llwybr ceffylau oddi ar y ffordd sydd ei angen i gynyddu, o ran datblygiadau yn ardaloedd gwledig Pentyrch, Creigiau a Radur. | 20% | ✓ |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2) | Nodi tirfeddianwyr, dechrau trafodaethau | Anghyflawn | ▪ Nodwyd y tirfeddianwyr mewn rhai adrannau ond nid oes angen trafodaethau nag iawndal gan fod y lonydd eisoes wedi'u mabwysiadu a bydd eu hail-ddosbarthu o'r briffordd fabwysiedig i ffordd gerbydau neu gilffordd gyfyngedig ond yn gwahardd mynediad i gerbydau modur. | 20% | ✓ |
| | 3) | Dechrau proses gyfreithiol i greu 4 ffordd geffylau | Anghyflawn | ▪ Defnyddiwyd gwirfoddolwyr i agor y mynediad ar lwybrau gwyrdd i ddechrau. Nid yw'r broses gyfreithiol o greu'r ffyrdd ceffylau wedi dechrau ond mae o hyd yn flaenoriaeth. | 20% | ✓ |
| | 4) | Dylunio a chreu deunydd hyrwyddo | Anghyflawn | ▪ Cwblheir hyn ar ôl i'r llwybrau gael eu hagor a'u bod yn hygyrch. | 0% | ✓ |
| **Cam Gweithredu 10.2 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Ni chwblhawyd y gwaith o ailddosbarthu 'lonydd gwyrdd' fel Llwybrau Ceffylau a Chilffyrdd Cyfyngedig (i weld diffiniadau gweler yr Eirfa Asesu Newydd).<br>▪ Gosodwyd arwyneb newydd ar rannau o'r lonydd gwyrdd dros y blynyddoedd i wella'r rhwydwaith oddi ar y ffordd i farchogion, ond mae angen cynnal a chadw'r llwybrau hyn. Y prif broblemau oedd y diffyg cyllid ac adnoddau staffio.<br>▪ Bydd ail-ddosbarthu'r lonydd gwyrdd yn dod yn Ffyrdd Ceffylau/Cilffyrdd Cyfyngedig a bydd gwella arwynebau i sicrhau hygyrchedd yn nod allweddol i'r CGHT newydd. | | | | | | |
| **10.3** | **Ymchwilio i ymarferoldeb creu llwybr marchogaeth cylchol wrth Ysgol Farchogaeth Caerdydd (Pontcanna) gan gynnwys statws cyfreithiol** | | | | | |
| **Cam Gweithredu 10.3 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Ni chynyddwyd y cam gweithredu hwn (5 x 0%). | | | | | | |
| **10.4** | **Ystyried ymarferoldeb creu llwybrau marchogaeth a ganiateir yn ardal Llys-faen** | | | | | ✓ |
| **Cam Gweithredu 10.4 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Ni chynyddwyd y cam gweithredu hwn (3 x 0%). Gall fod yn un o nodau'r CGHT newydd. | | | | | | |
| **10.5** | **Sefydlu sianeli cyfathrebu o ran arwyddion ffyrdd ger Llwybrau Ceffylau HTC** | | | | | ✓ |
| **Cam Gweithredu 10.5 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Er na chyflawnwyd y cam gweithredu hwn yn llawn, gosodwyd arwyddion ar y briffordd i rybuddio gyrwyr am geffylau mewn 10 lleoliad lle mae llwybrau ceffyl sy'n HTC yn ymuno â'r briffordd fabwysiedig.<br>▪ Nid adolygwyd yr arwyddion hyn nac nid ystyriwyd lleoliadau newydd. Gall fod yn un o nodau'r CGHT newydd. | | | | | | |
| **11.0** | **Llwybrau blaenoriaeth: Nodi a rheoli llwybrau blaenoriaeth** | | | | | |
| **11.1** | **Ystyried ymarferoldeb gweithredu'r 'llwybrau a ddymunir' a awgrymir gan FfMLl** | | | | | |
| | 1) | Cynnal arolwg safle o lwybrau, dysgu ymarferoldeb | Parhaus | ▪ Gwnaed hyn yn gyffredinol fel rhan o'r broses cais cynllunio, ymgynghorodd y tîm HTC ag aelodau FfMLl ar ymweliadau safle cyn cyfarfod (3 y flwyddyn).<br>▪ Mae'r tîm HTC wrthi'n gweithio gyda'r FfMLl ar ymarferoldeb Taith Pererindod Penrhys. | 40% | ✓ |
| | 2) | Ymchwilio i faterion lleol, nodi tirfeddianwyr | Cyfredol | ▪ Gwnaed hyn fel rhan o'r project LlAC ar wahân, gweler tasg 5 | 20% | ✓ |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 3) | Sefydlu llwybrau a chyflawni proses gyfreithiol | Cyfredol | ▪ Sefydlwyd 2 lwybr cerdded HTC newydd fel rhan o'r project LlAC ar wahân; Sblot 1 a Trowbridge 1. Gweler hefyd dasg 5. | 20% | ✓ |
| **Cam Gweithredu 11.1 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Er y gwnaed arolygon safle fel rhan o'r broses cais cynllunio, nid yw aelodau FfMLl wedi edrych yn benodol ar arolygu llwybrau eraill.<br>▪ Ni chynyddwyd y dasg. Gall hyn fod yn un o nodau'r CGHT newydd, e.e. parhau i weithio ar Lwybr Pererindod Penrhys. | | | | | | |
| **11.2** | **Cysylltu â safleoedd 'pot mêl' a chysylltiadau at lwybrau hamdden eraill – *gweler Tasg 3 a 4*** | | | | | |
| **Cam Gweithredu 11.2 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Fel rhan o Awyr Agored Caerdydd (y pwynt gwybodaeth canolog i bopeth awyr agored) mae'r holl bartneriaid yn cyfrannu at hyrwyddo ar y cyd, sy'n digwydd yn barhaus.<br>▪ Yn gysylltiedig â Thasgau 3 a 4, dosbarthu taflenni i dafarndai/caffis gwledig lleol a chanolfannau cymunedol lle maent yn cysylltu â llwybrau sy'n cael eu hyrwyddo.<br>▪ Roedd hyrwyddo eu cyfleusterau ar ein taflenni neu ar-lein yn ddefnyddiol iawn hefyd.<br>▪ Cwblhawyd y tasgau, 3 x 100%. | | | | | | |
| **11.3** | **Sicrhau adborth rheolaidd gan y tîm cynnal a chadw HTC, prif ddefnyddwyr a Chynghorau Cymuned** | | | | | |
| **Cam Gweithredu 11.3 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd y tîm HTC a'r tîm cynnal HTC a mynychir cyfarfodydd perthnasol eraill gan gynnwys FfMLl a Chynghorau Cymuned, cwblhawyd yr holl dasgau (3 x 100%) gyda phresenoldeb parhaus, rheolaidd.<br>▪ Caiff perthnasau gwaith da, sefydledig ac adborth eu gweithredu'n ôl yr angen. | | | | | | |
| **11.4** | **Dechrau proses i ymchwilio, prynu a gweithredu cyfres o ddyfeisiau 'cyfrif ymwelwyr'** | | | | | |
| | 1) | Ymchwilio, prynu a gweithredu dyfeisiau 'cyfrif ymwelwyr' | Cwblhawyd a pharhaus | ▪ Gosodwyd Cyfrifwyr Pobl ar bob llwybr cylchol a hyrwyddir (gweler 4.0) a'r tair taith afonig.<br>▪ Gosodwyd 11 cyfrifiwr ar y daith gylchol a gosodwyd 5 ar LlAC. Mae gan Barciau a TPT gyfres o gyfrifwyr pobl, y mae nhw'n eu rheoli'n ar wahân i HTC. | 80% | ✓ |
| **Cam Gweithredu 11.4 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Er y gosodwyd 'cyfrifwyr pobl', ond adolygir sut mae data'n cael ei gasglu a'i reoli. Bydd hon yn dasg â blaenoriaeth yn y CGHT newydd.<br>▪ Mae angen cynnal asesiad i benderfynu a allai rhai gael eu symud i leoliadau newydd. | | | | | | |
| **12.0** | **Archwilio'r posibilrwydd o gael cyllid o ffynonellau ychwanegol** | | | | | |
| **12.1** | **Rhaid defnyddio'r ROWIP yn effeithiol fel dogfen fidio i sicrhau lefel well o ariannu ar gyfer materion HTC** | | | | | |
| | 1) | Y CGHT i'w ddefnyddio fel dogfen fidio i sicrhau lefel well o ariannu ar gyfer materion HTC | Cwblhawyd a pharhaus | ▪ Cafwyd grantiau ychwanegol o brojectau partneriaeth drwy AAC; Cynllun Cerdded Er Lles Iechyd Caerdydd a Phrojectau Cefn Gwlad, a oedd yn cynnwys mentrau drwy Ecolegydd ac Adran Parciau'r Cyngor.<br>▪ Darparwyd cyllid y project gan Lywodraeth Cymru. | 80% | ✓ |
| **Cam Gweithredu 12.1 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Arferai Tîm Cefn Gwlad y Cyngor reoli'r projectau hyn, sydd nawr yn cael eu hariannu'n rhannol gan Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, grant refeniw sengl i ALlau yng Nghymru i gyflawni blaenoriaethau Gweinidogol a buddiannau amrywiol i gefnogi Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **12.2** | **Sefydlu ‘Fforwm Rhanbarthol’ sy’n ymchwilio i ‘gronfa ranbarthol o adnoddau’ – *Gweler Cam Gweithredu 3.3*** | | | | | |
| | **Cam Gweithredu 12.2 – Sylwadau cloi:** ▪ Gweler Tasg 3.3; **Grŵp Rhanbarthol Llwybr Arfordir Cymru** (**RWCPG)** sy’n cwrdd deirgwaith y flwyddyn a thrafodir cyswllt posibl â phrojectau. Mae WROWWG (timau HTC ALl Cymru gyfan) yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn i drafod materion HTC cenedlaethol (4 x 20%). Gweler WROWWG a RWCPG i weld datganiadau cenhadaeth neu wybodaeth ychwanegol. | | | | | |
| **12.3** | **Ystyried y defnydd addas i noddi preifat mewn deunydd hyrwyddol – *gweler Cam Gweithredu 3.4*** | | | | | |
| | **Cam Gweithredu 12.3 – Sylwadau cloi:** ▪ Gweler Cam Gweithredu 3.4, wrth i bartneriaid busnes gael eu nodi roedd hyn i gydweithio a chadw taflenni, ond ni chysylltwyd â nhw at ddibenion noddi a/neu hysbysebu. Mae’r rhesymau dros hyn yn cynnwys; osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau yng Nghyngor Caerdydd, goblygiadau cyfreithiol posibl, hefyd anawsterau rheoli taliadau (7 x 0%). | | | | | |
| **12.4** | **Ymchwilio i fanteisio ar grantiau cenedlaethol ac ariannu ‘achosion da’** | | | | | |
| | **Cam Gweithredu 12.4 – Sylwadau cloi:** ▪ Oherwydd tîm HTC llai a’r ffaith fod hon yn dasg fawr o ran amser staff a chost, nid oedd modd ei chyflawni (4 x 0%). | | | | | |
| **13.0** | **Llwybrau defnydd a rennir: Rhaglen yn addysgu pobl i fod yn ystyriol o ddefnyddwyr eraill y llwybr** | | | | | |
| **13.1** | **Annog aelodau FfMLl i sicrhau bod cyswllt effeithiol rhwng Cyngor Caerdydd a grwpiau defnyddwyr penodol** | | | | | |
| | 1) | Drwy AAC, creu cronfa ddata o fentrau’r Cyngor | Cwblhawyd a pharhaus | ▪ Gwybodaeth am fentrau’r Cyngor yn cael eu dwyn gerbron cyfarfodydd FfMLl e.e. Cyflwyniad Teithio Llesol, Map Rhwydwaith Integredig. ▪ Mae hyn yn cynnwys ymgynghoriadau e.e. Ymgynghoriad LlC ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy; Ch 4; Mynediad i’r Awyr Agored (WG31811) | 100% | |
| | 2) | Llunio taflen grynhoi i gyfarfodydd FfMLl | Cwblhawyd a pharhaus | ▪ Anfonir y rhain cyn cyfarfodydd FfMLl i roi gwybod ymlaen llaw ac i alluogi trafodaeth mewn cyfarfodydd. | 100% | |
| | 3) | Cadeirydd FfMLl i ofyn am ymateb i bob cais | Cwblhawyd a pharhaus | ▪ Nodir ymatebion a gweithredir arnynt yn ôl yr angen ac mae Cadeirydd y FfMLl yn rhoi ymateb ysgrifenedig ffurfiol wrth gynrychioli’r FfMLl. | 100% | |
| | 4) | Cylchdroi lleoliadau i gyfarfodydd y FfMLl, cyswllt â chymunedau a grwpiau defnyddwyr | Cwblhawyd a pharhaus | ▪ Defnyddir amryw leoliadau’n dibynnu ar ymweliadau safle a gynhelir cyn cyfarfodydd. ▪ Oherwydd diffyg ymgynghori FfMLl, ni all pobl nad ydynt yn aelodau ond arsylwi ac ni allant gyfrannu at gyfarfodydd onid y’u gwahoddir i siarad fel eitem agenda. ▪ Mae cyfarfodydd wedi cynnwys Pedal Power (yn defnyddio’r amryw feiciau), defnyddiwr llwybrau Fforest Ganol (yn nodi gwrthdaro defnyddwyr â beicwyr mynydd). | 40% | ✓ |
| | **Cam Gweithredu 13.1 – Sylwadau cloi:** ▪ Fel rhan o’u rôl, mae’r FfMLl yn ymateb yn rhagweithiol i fentrau ac ymgynghoriadau newydd, a fydd yn parhau i gael eu delio â hwy wrth godi. | | | | | |
| **13.2** | **Gwella cyhoeddusrwydd a dosbarthu’r Cod Cefn Gwlad. Llunio cod ymarfer.** | | | | | |
| | 1) | Tîm cynnal a chadw HTC i ddosbarthu i’r cyhoedd | Cwblhawyd a pharhaus | ▪ Rhoddir arwyddion a hysbysiadau cyhoeddus fel arfer ar gatiau a physt e.e. Baw cŵn. ▪ Er nas dosberthir i’r cyhoedd yn uniongyrchol mae’r tîm HTC yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i Dirfeddianwyr a Chynghorau Cymuned gan gynnwys Codau Cefn Gwlad a hysbysiadau. | 60% | ✓ |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2) | Ymatebion i wybodaeth HTC i gynnwys y Cod Cefn Gwlad | Cyfredol | ▪ Dydy hyn ddim fel arfer yn ymateb priodol e.e. materion gorfodi, gwybodaeth benodol lle y bo'n berthnasol e.e. Rheoli Tir a hawliau a chyfrifoldebau cyhoeddus.<br>▪ Gan fod y rhan fwyaf o ymatebion ar hyn o bryd yn cael eu hanfon drwy e-bost, mae'r hyperddolen ar y Cod Ymarfer ar bob ymateb, fel rhan o'r llofnod | 80% | ✓ |
| | 3) | Cod Cefn Gwlad a digwyddiadau cyhoeddus | Cwblhawyd a pharhaus | ▪ Cymerwyd y rhain ar y Sioeau Teithiol (gweler tasg 3.2) | 100% | |
| | 4) | AAC i ffurfio 'Cod Ymarfer Caerdydd' | Cwblhawyd a pharhaus | ▪ Er bod y Cod Cefn Gwlad yn ddefnyddiol, cafodd Cod Ymarfer Caerdydd ei sefydlu oherwydd gwrthdaro defnydd a rennir hysbys ym Mharc Hailey. Cytunwyd gwneud hwn yn broject peilot a allai gael ei gyflwyno i fannau defnydd a rennir eraill i atal gwrthdaro rhwng defnyddwyr. | 100% | |
| | 5) | Ymgynghori aelodau FfMLl a grwpiau eraill i gymeradwyo cod ymarfer Caerdydd | Wedi'i gwblhau | ▪ Cafwyd cyfres o arolygon ym Mharc Hailey a Pharc Bute fel rhan o'r cynllun peilot i ddeall gwrthdaro defnyddwyr a ganfyddir a materion eraill.<br>▪ Yn dilyn ymgynghoriad ac adolygiad, sefydlwyd 'Cod Ymarfer' i Barc Hailey; roedd hwn am fod yn gynllun peilot posibl i lwybrau defnydd a rennir eraill a Pharciau eraill Caerdydd. | 100% | |
| | 6) | Yn dilyn ymgynghoriad, addasu a chyflwyno dogfen derfynol. Adolygu'n ôl y gofyn. | Wedi'i gwblhau | ▪ Rhoddwyd yr arwyddion 'Cod Ymarfer' terfynol cyntaf y cytunwyd arnynt ym Mharc Hailey fel cynllun peilot.<br>▪ Yna fe'i gosodwyd ar lwybrau defnydd a rennir yn y lleoliadau canlynol; Taith Taf, Llwybr Elái, Parc Bute, Parc y Mynydd Bychan, Caeau Llandaf, Gerddi Sophia, Parc y Marl, Gerddi Bryn Rhymni, Caeau Chwarae New Road, Parc Gwledig Fferm y Fforest. | 100% | |
| **Cam Gweithredu 13.2 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Sylwer; ers cyhoeddi'r CGHT yn 2008, mae'r Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus bellach yn cynnwys cymal ar reoli cŵn. Nid yw Gorchmynion Rheoli Cŵn yn cael eu defnyddio mwyach.<br>▪ Parhau i gefnogi a hyrwyddo Cod Ymddygiad Caerdydd ar lwybrau a rennir ac ystyried cyfleoedd hyfforddi i wirfoddolwyr, e.e. cymorth cynnal a chadw, Arweinwyr Teithiau Cerdded ac ati, fel yr hyrwyddir ar wefan AAC.<br>▪ Mae'r Cod Cefn Gwlad ar gael drwy ddolen ar y wefan HTC ac AAC. | | | | | | |
| **13.3** | **Cynnal ymweliadau safle'n ôl yr angen, i ddilyn adroddiadau ar wrthdaro defnyddwyr** | | | | | |
| | 1) | Sicrhau cyhoeddusrwydd i fanylion argyfwng a di-argyfwng ar arwyddion a gwefan AAC | Cwblhawyd yn rhannol a pharhaus | ▪ Mae 'Cysylltiadau Defnyddiol' ar bob taflen a bwrdd gwybodaeth gan gynnwys manylion cyswllt HTC i'r cyhoedd eu defnyddio.<br>▪ 'Adrodd Mater' drwy C2C ar wefan y Cyngor.<br>▪ Delir ag adroddiadau brys cyn gynted â phosibl e.e. coeden beryglus, llwybr yn disgyn, damwain gyhoeddus yn cynnwys buwch/ceffyl. | 60% | ✓ |
| | 2) | Sefydlu 'grŵp gorchwyl a gorffen' FfMLl i ymateb i faterion fel y'u cofnodwyd | Cyfredol | ▪ Caiff pob aelod FfMLl wybod am wrthdaro a adroddir rhwng defnyddwyr, fodd bynnag nod y Cod Ymarfer cyhoeddus yw atal/lleihau gwrthdaro rhwng defnyddwyr. | 60% | ✓ |
| | 3) | Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cyflwyno argymhellion cytûn o faterion yr ymchwiliwyd iddynt | Parhaus? | ▪ Mae pob aelod FfMLl wedi rhoi gwybod i'r tîm HTC am unrhyw wybodaeth bellach ac argymhellion i atal/lleihau gwrthdaro defnyddwyr. | 60% | ✓ |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 13.3 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Delir â materion wrth iddynt godi. Cynnwys rheoli yn ôl yr angen. | | | | | | |
| **13.4** | **Defnyddio arwyddion penodol i annog ymddygiad cwrtais a chyfrifol ar y rhwydwaith HTC –** ***gweler Camau Gweithredu 2.1, 13.2 a 15*** | | | | | ✓ |
| **Cam Gweithredu 13.4 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Cyfeirier at Gamau Gweithredu 2.1, 13.2 a 15. Datblygwyd y tasgau'n rhannol gyda'r Cod Ymddygiad uchod (5 tasg x 60%). Gall gwaith pellach fod yn un o nodau'r CGHT newydd. | | | | | | |
| **13.5** | **Dylunio Rhaglen Ysgol benodedig, i hyrwyddo ymwybyddiaeth gymdeithasol a rhoi gwybodaeth amgylcheddol** | | | | | |
| **Cam Gweithredu 13.5 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Oherwydd materion ariannu a staff, ni ddatblygwyd y cam gweithredu hwn (5 tasg x 0%). | | | | | | |
| **14.0** | **Rhoi gwaith cynnal a chadw'r rhwydwaith ar gontract allanol: a yw'n bosibl trosglwyddo cyfrifoldeb?** | | | | | |
| **14.1** | **Gwella ac ymestyn perthnasau â Chynghorau Cymuned drwy eu hysgrifenyddion –** ***gweler Cam Gweithredu 11.3*** | | | | | |
| | 1) | Cysylltu ag ysgrifenyddion i ddysgu lefel y diddordeb a gallu | Parhaus | ▪ Mae'r tîm HTC yn gweithio'n agos gyda rhai cynghorau cymuned fel Llys-faen, Radur a Phentre-Poeth a Phentyrch. Mae Cynghorau Cymuned yn llai cyson a chysylltir â hwy pan fo projectau neu faterion lleol ar y rhwydwaith yn eu hardal. | 60% | ✓ |
| | 2) | Y tîm HTC i nodi tasgau i aelodau eu cyflawni | Tasg wedi dechrau, parhaus | ▪ Am yr ychydig flynyddoedd cynnar talodd cyllideb HTC Gynghorau Cymuned i gyflawni gwaith cynnal a chadw llwybrau o fewn eu ffiniau i gynorthwyo â chynnal a chadw llwybrau ond daethai'r fenter i ben fel rhan o adolygiad cyllidebol.<br>▪ Y tîm HTC sydd bellach yn gwneud yr holl waith cynnal a chadw gyda chymorth Cynghorau Cymuned ar brojectau neu welliannau penodol yn eu ffiniau. | 40% | ✓ |
| | 3) | Anfon crynodeb o fentrau a chyfrifoldebau'r Cyngor | Parhaus | ▪ Ni ddosberthir taflenni crynhoi, ond mae cyfathrebu rheolaidd â chynghorau cymuned a mynychir cyfarfodydd.<br>▪ Caiff HTC wybod am y gwaith cynnal a chadw sydd ei angen ar lwybrau yn ffiniau'r cyngor cymuned ac mae hyn yn helpu i flaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer yr ymholiadau a ddaeth i law am lwybr penodol. | 60% | ✓ |
| | 4) | Swyddog HTC i fynychu cyfarfodydd Cyngor Cymuned yn ôl y gofyn | Cwblhawyd a pharhaus | ▪ Cyfathrebu'n rheolaidd â Chynghorau Cymuned<br>▪ Mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd | 100% | |
| **Cam Gweithredu 14.1 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Cysylltwyd â Chynghorau Cymuned, grwpiau cymunedol ac Adrannau'r Cyngor i ddeall lle mae angen gwneud gwelliannau ar y rhwydwaith. Gall hyn symud ymlaen fel rhan o'r CGHT newydd. | | | | | | |
| **14.2** | **Sefydlu canllawiau i benderfynu ar rolau 'partneriaid cymunedol'** | | | | | ✓ |
| **Cam Gweithredu 14.2 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Ni ddatblygwyd y dasg hon (0%). Gall fod yn un o nodau'r CGHT newydd. | | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 14.3 | **Y tîm HTC i annog Cynghorau Cymuned i fod yn allweddol wrth wella perthnasau â thirfeddianwyr** | | | | ✓ |
| | **Cam Gweithredu 14.3 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Ni ddatblygwyd y cam gweithredu hwn (2 dasg x 0%). Gall fod yn un o nodau'r CGHT newydd.<br>▪ Yn gyffredinol, mae HTC yn cysylltu â Chynghorau Cymuned, ond ni luniwyd polisi i ffurfioli 'arfer gorau' wrth gyfathrebu â thirfeddianwyr. | | | | |
| 14.4 | **Tîm HTC i weithio mewn partneriaeth â'r Cerddwyr Caerdydd ar brojectau a nodir** | | | | ✓ |
| | **Cam Gweithredu 14.4 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Ni ddatblygwyd y cam gweithredu hwn (2 dasg x 0%). Gall fod yn un o nodau'r CGHT newydd. | | | | |
| **15.0** | **Sbwriel ar HTC: Sut i ddelio â hyn yn ymarferol – *Gweler hefyd Tasg 7.1 ac 14*** | | | | |
| 15.1 | **Dechrau 'system arolygu' mewn strategaeth cynnal a chadw a gorfodi newydd – *gweler Camau Gweithredu 7 ac 14*** | | | | ✓ |
| | **Cam Gweithredu 15.1 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Rhoi gwybod am broblem yn cael cyhoeddusrwydd drwy wefan Cyngor Caerdydd ac mae'r tîm HTC yn parhau i gysylltu â Rheoli Gwastraff i roi gwybodaeth am dipio anghyfreithlon fel mesur ymatebol ond ni ddadansoddir hyn ar hyn o bryd i benderfynu ar amlder na nodi mannau problemus. Mae Rover Way yn fan problematig; mae'r tîm HTC yn gweithio gyda Rheoli Gwastraff, Swyddogion Cyngor amrywiol a sefydliadau i ddatrys y broblem, ond mae hon yn broblem ar gyfer safle penodol yn hytrach na phroblem gyffredinol ar draws y rhwydwaith.<br>▪ Dylid nodi bod Cadwch Gymru'n Daclus a Cadwch Gaerdydd Yn Daclus yn mynd i'r afael ag ardaloedd lle mae sbwriela yng Nghaerdydd â gwirfoddolwyr ond y gwneir hyn yn annibynnol ac nid yw'n cynnwys HTC. Maen nhw wedi gweithio gyda'r Swyddog LlAC ar glirio darnau o'r llwybr cyn agoriad swyddogol LlAC.<br>▪ Bydd y system cynnal a chadw AMX yn fodd o feintioli problemau a mannau problematig ailadroddus (cysylltiedig â Thasg 7.1)<br>▪ Caiff gwaith ychwanegol gyda grwpiau cymunedol (gweler Tasg 14) i drefnu diwrnodau codi sbwriel ei ystyried yn y CGHT newydd (Cam Gweithredu; ar y cyfan 5 tasg x 80%). | | | | |
| 15.2 | **Defnyddio arwyddion penodol i annog ymddygiad cyfrifol gan gynnwys gwaredu sbwriel – *gweler hefyd Tasg â Blaenoriaeth 2 a 13.2*** | | | | |
| | **Cam Gweithredu 15.2 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Hyrwyddir y Cod Ymarfer Cefn Gwlad ar fyrddau gwybodaeth ar y safle a thaflenni lwybr i annog ymddygiad cyfrifol, sy'n cynnwys mynd â'ch sbwriel gartref â chi.<br>▪ Un o'r problemau sbwriel mwyaf yw baw cŵn; mae cyfres o arwyddion wedi'u gosod ar gatiau a chamfeydd i atgoffa defnyddwyr llwybrau i lanhau ar ôl eu cŵn a mynd â'u sbwriel gartref.<br>▪ Ni ddatblygwyd y dasg hon ymhellach na'r hyn a nodwyd uchod fodd bynnag gall fod yn un o nodau'r CGHT newydd (Cam gweithredu; cyfanswm o 60%) | | | | |
| 15.3 | **Sefydlu perthynas o gydweithredu â Sustrans a BTCV – *gweler Tasg 4.1*** | | | | |
| | 1) Dechrau cydweithio gyda Sustrans drwy'r tîm Beicio a'r Swyddog Beicio | Cwblhawyd a pharhaus | ▪ Ar gyfartaledd, ymgymerwyd â 3 i 5 diwrnod gwaith y flwyddyn gan Wirfoddolwyr Sustrans i helpu i godi sbwriel a thorri llystyfiant ar hyd Taith Taf a Llwybr Elái.<br>▪ Mae Sustrans fel arfer yn contractio HTC i sicrhau bod ganddynt ganiatâd i wneud gwaith cynnal a chadw ar ddarn o lwybr y maent wedi cael gwybod amdano, lle mae angen clirio llystyfiant. | 100% | ✓ |
| | 2) Sefydlu cydweithredu â BTCV drwy Cymunedau Yn Gyntaf a chyfarfodydd 'penodol i'r project'. | Cwblhawyd a pharhaus | ▪ Mae BTCV wedi gwneud amrywiaeth o osodiadau ar y rhwydwaith HTC, megis gosod pontydd ac estyllod a thrwsio waliau cynnal lle roedd ymylon y llwybr yn erydu ar lannau serth.<br>▪ Newidiodd cyllid BTCV a diddymwyd y grŵp. Fodd bynnag, ffurfiodd Gwirfoddolwr Cadwraeth Caerdydd (CCV) fel grŵp a gyfansoddwyd ac yna cynorthwyodd HTC â gwella llwybrau a chlirio llystyfiant. | 100% | ✓ |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ▪ Ar gyfartaledd, cynhaliodd BTCV a CCV dasgau rhwng 3 a 5 gwaith y flwyddyn, yn dibynnu ar argaeledd cyllid HTC, mae HTC yn talu am ac yn cyflenwi yr holl ddeunyddiau gofynnol i'r llwybr (h.y. carreg, arwyddion cyfeiriad, pecynnau estyllod ac ati) a thalu cyfradd ddyddiol i dalu treuliau teithio'r gwirfoddolwyr. | | |
| **Cam Gweithredu 15.3 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Mae'r tîm HTC yn gweithio'n agos gyda Sustrans a CCV (gweler Cam Gweithredu 4.1) yn rheolaidd ar gyfer diwrnodau gwirfoddoli. Gall hyn fod yn un o nodau'r CGHT newydd. | | | | | | |
| **15.4** | **Dylunio Rhaglen Ysgolion benodedig, i hyrwyddo ymwybyddiaeth gymdeithasol a rhoi gwybodaeth amgylcheddol – *gweler Cam Gweithredu 13.5*** | | | | | |
| **Cam Gweithredu 15.4 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Ni ddatblygwyd y cam gweithredu hwn (gweler Cam Gweithredu 13.5) (5 dasg x 0%). | | | | | | |
| **16.0** | **Canlyniadau cyflym ac arolygon rhwydwaith: Annog defnydd cyhoeddus o HTC. Cynnal arolygon rheolaidd** | | | | | |
| **16.1** | **Sefydlu mesurau i wneud arolwg cyffredinol bob 3 blynedd – *gweler Tasg 7.1 2)*** | | | | | |
| | 1) | Archwilio cael y system fapio System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad (CAMS) (defnyddir gan y rhan fwyaf o ALlau) | Wedi'i gwblhau | ▪ Gosodwyd y System CAMS ac fe'i defnyddiwyd bob diwrnod yn y CGHT cyntaf, ond gan fod y rhaglen AMX bellach yn cael ei defnyddio (gweler Tasg 7.1 2) nad yw'n cyweddu â CAMS, roedd yn rhaid mapio'r HTC â rhaglen AMX.<br>▪ Mae HTC bellach yn defnyddio mapio AMX. | 100% | |
| | 2) | Cysylltu â TCM i gael cyllid ar gyfer CAMS | Wedi'i gwblhau | ▪ Cafwyd cefnogaeth ar CAMS gan TCM a dyrannwyd cyllideb HTC i osod a chefnogi'r rhaglen. | 100% | |
| | 3) | Defnyddio CAMS i wneud arolwg 'llawr gwlad' o gyflwr y rhwydwaith | Cwblhawyd yn Sylweddol | ▪ Cynhaliwyd arolwg o'r llwybrau cerdded gan nodi'r holl ddodrefn ar y llwybrau, ond ni chafodd ei gwblhau. Rhoddodd yr arolwg fanylion am gyflwr, math ac unrhyw ofynion cynnal a chadw.<br>▪ Helpodd hyn i nodi lle roedd angen gwneud gwelliannau i wella mynediad i bawb. | 80% | ✓ |
| | 4) | Adolygu'r amserlen cynnal a chadw'n seiliedig ar adborth arolwg | Anghyflawn | ▪ Yn sgîl ailstrwythuro'r tîm HTC, nid oedd gan y swyddogion oedd yn weddill yr arbenigedd ar sut i ddefnyddio CAMS ac roedd costau hyfforddi'n rhy ddrud i barhau i ddefnyddio'r rhaglen (gweler 7.1)<br>▪ Nis datblygwyd ond wrthi'n gweithio ar sefydlu AMX i adolygu rhaglen cynnal a chadw a BVIPau. | 20% | ✓ |
| **Cam Gweithredu 16.1 – Sylwadau cloi:**<br>▪ Nid yw HTC bellach yn defnyddio CAMS oherwydd ffioedd cynnal uchel a diffyg staff all ddefnyddio'r rhaglen.<br>▪ Defnyddir AMX bellach gan HTC a'r Adran Briffyrdd, felly mae arolwg cyflwr newydd yn cael ei wneud ar y rhwydwaith. Bydd AMX yn galluogi'r HTC i gynnal amserlenni cynnal a chadw a meysydd lle mae angen gwella mynediad i bawb. Mae hwn hefyd yn adnodd rheoli i helpu i gynllunio gwaith cynnal a chadw at y dyfodol (gweler 7). | | | | | | |

# Casgliad cryno o gamau gweithredu tasgau:

Yn fyr, roedd 16 o nodau allweddol a 63 o gamau gweithredu wedi'u targedu, ac roedd 213 o dasgau.

O'r 213 o dasgau;

- Cwblhawyd 69
- Cwblhawyd 37 yn sylweddol
- Cwblhawyd 20 yn rhannol
- Mae 13 ar y cam cynllunio
- Cychwynnwyd 27 o dasgau
- Ni ddechreuwyd 47

Bydd rhai tasgau'n cael eu cynnwys yn y CGHT newydd, ond gellid rhoi'r gorau i rai tasgau os penderfyna'r cyhoedd nad oes eu hangen mwyach neu os oes gan dasgau eraill flaenoriaeth uwch.

# NODIADAU/Atodiad:

**A. Awyr Agored Caerdydd:**

Wrth gynllunio'r CGHT, gweithiodd y tîm HTC gyda Pharciau, Cefn Gwlad, Swyddog Beicio (Trafnidiaeth) ac Awdurdod Yr Harbwr, felly roedd trawstoriad sylweddol o weithgareddau a phrojectau buddiant. O ganlyniad, crëwyd brand a gwefan Awyr Agored Caerdydd i gynnwys pob tîm sydd bellach yn cael eu defnyddio i hyrwyddo gweithgareddau awyr agored. Roedd hwn yn ganlyniad sylweddol o gynllunio'r CGHT ac atgyfnerthodd gydweithio rhwng Adrannau'r Cyngor.

**B. Partneriaid (gan gynnwys Adrannau'r Cyngor):**

i. Y Tîm Cefn Gwlad, gan gynnwys Bioamrywiaeth (rhan o'r Adran Gynllunio); wedi rheoli amryw grantiau LlC (rheolir gan CCGC/CNC) gan gynnwys y Grant Cefn Gwlad.
ii. Parciau
iii. Awdurdod Harbwr Caerdydd
iv. Trafnidiaeth (Beicio)

Hefyd:

v. Cyfoeth Naturiol Cymru (y Comisiwn Coedwigaeth gynt)

**C. Newidiadau ffin:**

*Yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, newidiodd rhai o ffiniau'r siroedd:*

**i.** **Morgannwg Ganol** (sir a gedwir); diddymwyd ym 1996; ychwanegwyd Pentyrch (o ddosbarth Taf-Elái) i ardal sirol Cyngor Caerdydd**.**

**ii.** **De Morgannwg (sir a gedwir);** diddymwyd ym 1996; ychwanegwyd Pentyrch, Gwaelod-y-Garth a Chreigiau (o ddosbarth Taf-Elái) i ardal sirol Cyngor Caerdydd.


*Hefyd:*

iii. **Sir Fynwy;** y ffin hanesyddol rhwng Morgannwg a sir Fynwy oedd Afon Rhymni. Roedd Rhymni'n draddodiadol yn rhan o Sir Fynwy, ond ym 1938 fe'i hymgorfforwyd i fwrdeistref sirol Caerdydd dan Ddeddf Ymestyn Caerdydd 1937. Roedd Llaneirwg a Phentref Llaneirwg yn hanesyddol yn Sir Fynwy ond ym 1974 daethent yn rhan o Dde Morgannwg dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (gweler ii.)

**D. Ardaloedd eithriedig:**

Oherwydd twf cyflym hanesyddol dinas a sir Caerdydd, cafodd rhai ardaloedd trefol eu heithrio o'r MD gan fod HTC wedi'u hamsugno i mewn i ddatblygiadau fel palmentydd, lonydd ac ati (byddai mapiau hanesyddol yn dangos y newidiadau hyn yn fanylach).


**GRAPH 1: showing Grant spend (figures taken from Table 1)**




**NOTES:**

- WfH, ROWIP and Cycle Routes were grants, which finished at end of 2017/8 financial year.
- PROW Maintenance is part of annual maintenance budget.

**GRAPH 2: showing Staff resources (figures taken from Table 1)**



# Tabl 1: Gwariant Cyllideb (cyf Graffiau 1 a 2 uchod)

| **Blwyddyn ariannol** | **Cynnal a Chadw HTC** | **Llwybrau Beicio** | **Grant HTC *drwy LlC*** | **Grant Cerdded Er Lles Iechyd** | **Grant Llwybr Arfordir Cymru *drwy LlC*** | **Cyfanswm Gwariant y Flwyddyn (*ac eithrio Grant LlAC)*** | **Adnodd Staff, Llawn Amser (LlA)** | **Cyfanswm costau staff** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2008/9 | £23,533 | £6,924 | £0 | £15,700 | £70,378 | £46,157.00 | 2 x HTC<br>1 x Map Diffiniol<br>1 x Syrfëwr<br>2 x Cynnal a Chadw<br>1 x ROWIP<br>1 x CELll<br>1 x LlAC<br>(cyfateb â 9 Swyddog) | £278,817 |
| 2009/10 | £16,634 | £9,962 | £26,492 | £15,700 | £69,763 | £68,788.00 | 2 x HTC<br>1 x Map Diffiniol<br>1 x Syrfëwr<br>2 x Cynnal a Chadw<br>1 x Swyddog ROWIP<br>1 x Project CELll<br>1 x Swyddog LlAC<br>(cyfateb â 9 Swyddog) | £277,738 |
| 2010/11 | £20,810 | £22,179 | £42,352 | £15,045 | £88,660 | £100,386.00 | 2 x HTC<br>1 x Map Diffiniol<br>1 x Syrfëwr<br>2 x Cynnal a Chadw<br>1 x ROWIP<br>0.5 x CELll<br>1 x LlAC<br>(cyfateb â 8.5 Swyddog) | £286,108 |
| 2011/12 | £12,865 | £24,723 | £47,921 | £14,726 | £93,514 | £100,235.00 | 1.5 x HTC<br>1 x Map Diffiniol<br>1 x Syrfëwr<br>2 x Cynnal a Chadw<br>0.5 ROWIP<br>0.5 x CELll<br>1 x LlAC<br>(cyfateb â 7.5 Swyddog) | £257,776 |

| **Blwyddyn** | **Cynnal a Chadw HTC** | **Llwybrau Beicio** | **Grant HTC *drwy LlC*** | **Grant Cerdded Er Lles Iechyd** | **Grant Llwybr Arfordir Cymru *drwy LlC*** | **Cyfanswm Gwariant y Flwyddyn (*ac eithrio Grant LlAC*)** | **Adnodd Staff, Cyfwerth ag Amser Llawn** | **Cyfanswm costau staff** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2012/13 | £11,700 | £12,813 | £40,495 | £15,001 | £99,314 | £80,009.00 | 2 x HTC<br>1 x Map Diffiniol<br>0.25 x Syrfëwr<br>2 x Cynnal a Chadw<br>0.5 x ROWIP<br>0.5 x CELlI<br>1 x LlAC<br>(cyfateb â 7.25 Swyddog) | £236,578 |
| 2013/14 | £9,205 | £23,976 | £15,602 | £12,521 | £13,216 | £61,304.00 | 1.5 x HTC<br>1 x Map Diffiniol<br>2 x Cynnal a Chadw<br>0.25 x ROWIP<br>0.25 x CELlI<br>(cyfateb â 5 Swyddog) | £240,070 |
| 2014/15 | £6,925 | £15,010 | £37,103 | £15,000 | £1,652 | £74,038.00 | 2 x HTC<br>2 x Cynnal a Chadw<br>0.5 x ROWIP<br>0.5 CELlI<br>(cyfateb â 5 Swyddog) | £144,734 |
| 2015/16 | £16,507 | £15,375 | £37,000 | £10,000 | £5,214 | £78,986.00 | 2 x HTC<br>2 x Cynnal a Chadw<br>0.33 x ROWIP<br>0.33 x CELlI<br>(cyfateb â 4.66 Swyddog) | £178,476 |
| 2016/17 | £7,311 | £8,070 | £37,000 | £10,000 | £3,913 | £62,381.00 | 2 x HTC<br>2 x Cynnal a Chadw<br>0.33 x ROWIP<br>0.33 x CELlI<br>(cyfateb â 4.66 Swyddog) | £200,659 |
| 2017/18 | £4,212 | £5,413 | £35,759 | £6,800 | £5,082 | £52,184.00 | 2 x HTC<br>2 x Cynnal a Chadw<br>0.75 x ROWIP<br>0.33 x CELlI<br>(cyfateb â 5.08 Swyddog) | £207,009 |
| **CYFANSWM GWARIANT 10 MLYNEDD** | £129,702 | £144,445 | £319,828 | £130,493 | £450,706 | **£724,468.00** | | **£2,307,965.00** |

## Nodiadau ar Gyllidebau a Staff:

- Gwirfoddolwyr; nis cofnodwyd oriau ac felly maent yn anhysbys. Ar gyfartaledd; mae gwirfoddolwyr yn rhan o weithgareddau a drefnir gan HTC 3-5 diwrnod y flwyddyn. Rheolwyd y rhan fwyaf o hyn mewn partneriaeth â Pharciau, Gwirfoddolwyr Cadwraeth Caerdydd, Sustrans a grwpiau marchogaeth lleol.
- Staff, cyfwerth ag amser llawn(CALl); hwn yw nifer yr oriau gwaith y mae un cyflogai llawn amser yn ei gwblhau yn ystod cyfnod amser penodol fel un mis neu un flwyddyn. Fe'i defnyddir i addasu oriau a weithir gan staff rhan amser i'r oriau a weithir gan staff llawn amser at ddibenion cymharu dros yr un cyfnod amser penodedig. Er enghraifft; mae swyddog swyddfa'n gweithio am 2,800 awr mewn blwyddyn weithio lawn (ac eithrio'r holl wyliau), sy'n cyfateb i 1 cyfwerth ag amser llawn. Os yw swyddog yn gweithio 1,040 awr mewn blwyddyn weithio lawn, mae'n cyfateb i 0.5 CALl, a allai fod yn un swyddog yn gweithio'n llawn amser am hanner y flwyddyn waith neu'n swyddog rhan amser sy'n gweithio hanner wythnos waith drwy gydol y flwyddyn waith. Dengys y graff y canlyniad cyfatebol at ddibenion cymharol ac ystadegol.
- Yn ystod y cyfnod 10 blwyddyn, roedd sawl newid i staff gan gynnwys staff yn gadael o swyddi gradd uwch/canolig a staff yn ymuno ar swyddi gradd ganolig/is. Roedd hefyd gyfnod lle gallai staff adael drwy ddiswyddo gwirfoddol (DG) gyda thaliadau DG canlyniadol.
- Roedd amser swyddogion ar brojectau a ariennir drwy grant yn cynnwys talu'r rhan fwyaf o gyflog a gydariannwyd gan Gyngor Caerdydd a oedd yn cynnwys costau safle cynnal y swyddog.
- LlAC (Gweler Nod Allweddol 5); nid yw gwariant cyllideb wedi'i gynnwys yng ngraff 1 gan nad oedd tasgau yn y CGHT. Cafodd LlAC ei agor yn swyddogol ym Mehefin 2012 a gorffennodd y Swyddog project ym Mehefin 2013. Yn dilyn hyn, roedd cyllideb LlAC yn sylfaenol.
- Arian grant, projectau er buddsoddi; fel arfer Llywodraeth Cymru (LlC), rheolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC - Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) gynt), hefyd sefydliadau eraill.
- O ran CELlI a CGHT: O 2013 i ddiwedd blwyddyn ariannol 2015, rhannwyd swydd Swyddog llawn amser rhwng 2 broject (CELlI + CGHT) yna yn 2015-17 oherwydd llai o gyllid, daethai'n swydd rhan amser.

**This document is available in English and is on Cardiff Council's website (Public Rights of Way) / Mae'r ddogfen hyn ar gael yn Saesneg ar wefan Cyngor Caerdydd (Hawliau Tramwy Cyhoeddus)**